# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 543 · Mehefin 2023 · 50c

## Hwyl yr Haf wedi cychwyn



Y cynnwrf yn cychwyn yn y Carnifal

Mae'r mis diwethaf wedi rhoi cyfle i ni weld ysbryd cymunedol Dyffryn Ogwen ar ei orau gyda llu o ddigwyddiadau yn gwneud y mwyaf o'r heulwen.

Rhaid talu teyrnged i ymdrech gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i sicrhau llwyddiant digwyddiadau fel Carnifal Bethesda a Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.

Mae hanes y digwyddiadau cymunedol sydd wedi eu cynnal yn ddiweddar yng ngweddill Llais Ogwan.

## Gwych Gwydion

Cerddor ifanc dawnus o Rachub gipiodd medal Prif Gyfansoddwr Eisteddfod yr Urdd eleni.

Llongyfarchiadau gwresog i Gwydion Rhys, mab Stephen a Siân ar sicrhau'r wobr draw yn y brifwyl yng Nghaerfyrddin.

Mae'n enw cyfarwydd i ddarllenwyr Llais Ogwan wrth gwrs ac wedi sicrhau sawl gwobr eisteddfodol dros y blynyddoedd.

Yn wir, mae Gwydion wedi cyrraedd y tri uchaf yn y gystadleuaeth yma deirgwaith yn y gorffennol, ac roeddem yn hynod o falch o weld ei falchder yn derbyn y wobr eleni.

**Mae mwy o hanes llwyddiant Gwydion ar dudalen 5**



Gwydion Rhys, Prif Gyfansoddwr Eisteddfod yr Urdd

## Y Sioe yn ei hôl

Wedi blynyddoedd Covid yn golygu nad oedd modd ymgynnull, ynghyd a thywydd hynod anffafriol dros y blynyddoedd diwethaf, roedd Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen 2023 yn brawf o ddyfalbarhad a chydymdrech.

Gyda'r tywydd o'u plaid, a thyrfa wych o gystadleuwyr a chefnogwyr, cafwyd diwrnod i'r brenin draw ar gaeau Dol Ddafydd ar ddydd Sadwrn, 3 Mehefin.

Braf oedd gweld yr ifanc a'r profiadol yn arddangos eu talentau. Roedd ôl paratoi amlwg ar yr anifeiliaid a braf gweld balchder y perchnogion. Roedd cystadlaethau cartref hefyd yn eu holau ynghyd â mabolgampau ac adloniant i ddiddanu'r cefnogwyr.

Llongyfarchiadau i'r trefnwyr am lwyddiant a diolch iddynt am eu holl waith paratoi, roedd hi'n glir fod pawb wedi cael modd i fyw ar y diwrnod. Hoe fach rŵan cyn meddwl am 2024!

Diolch i Chris Owen o Dregarth am rai o luniau o'r sioe. Mwy o luniau y cystadlu ar dudalen 6.





# Llais Ogwan

## Rhif 543
Mehefin 2023


**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


### Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Carwyn Meredydd.**

Y golygydd ym mis **Gorffennaf** fydd **Rhys Llwyd.**
Tonteg, 13 Talycae,Tregarth,
Bangor, Gwynedd, LL57 4AE
01248 601606
Ebost: rmll42@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 1 Gorffennaf** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 20 Gorffennaf,**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (183) | John Ll. Williams, Ffordd Bangor, Bethesda. |
| £20.00 | (140) | Aled Hughes, Bryn, Llandygai. |
| £10.00 | (75) | Annes Glyn, Rhiwlas. |
| £5.00 | (111) | Gwen Davies, Tanysgafell, Bethesda. |

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

post@llaisogwan.com

## Dyddiadur y Dyffryn

**Mehefin**
16 Cawl a Chân. Clwb Rygbi Bethesda.
17 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Cefnfaes . 10.00 – 12.00
24 Roc y Ddôl. Clwb Rygbi Bethesda. 11yb – 11yh.
22-24 Creigiau Geirwon. Pontio.
24 Bore Coffi Cronfa Goffa Tracy Smith. Cefnfaes. 10.00 – 12.00
26 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00
27 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00

**Gorffennaf**
1 Ffair Ffeirio Dillad Plaid Cymru. Neuadd Goffa Mynydd Llandygai. 2.00 – 4.00.
4 Te Mefus. Festri Bethlehem Talybont am 7.00
8 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00
8 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00
11 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
17 Cymdeithas Hanes D. Ogwen. Taith Maes ardal Rhiwlas, gyda Cynrig Hughes. Cychwyn o'r neuadd am 6.30.
20 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

### Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| **£4.50** | A. & H. Speddy, Pantglas, Bethesda. |
| **£10.00** | Er cof am Mrs. Mary Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, a fu farw ar 4 Mehefin 1978 yn 60 oed. Oddi wrth Llewela a'r teulu. |
| **£20.00** | Er cof annwyl am Dylan Rowlands, Erw Las, oddi wrth dad, mam a'r teulu. |
| £30.00 | John Ll. Williams, Ffordd Bangor, Bethesda. |
| £50.00 | Er cof am Glenys Rowlands, Adwy'r Nant, Bethesda, oddi wrth y teulu. |

**Diolch yn fawr**


Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru


Dilynwch Llais Ogwan ar **www.llaisogwan.com**

# Llythyr

**Apêl Eglwys Crist, Glanogwen**

Annwyl ddarllenwyr Llais Ogwan,

Mae eich eglwys chi angen help. Rydych wedi sylwi erbyn rŵan, mae'n siŵr, ar y gwaith sylweddol sy'n digwydd ar ein hadeilad - gwaith holl bwysig er mwyn diogelu'r strwythur a sicrhau ein bod yn medru ei chadw ar agor am flynyddoedd i ddod. Mae Eglwys Glanogwen wedi bod yn adnodd ac yn ganolfan gysegr i'r gymuned yma ym Methesda a'r cylch ers 1855/6 - ar gael i chi mewn llawenydd a thristwch, yn ganolfan gweddi a bywyd ysbrydol, a rhywle i gofnodi achlysuron pwysig ein bywydau...o'r crud i'r bedd.

Erbyn heddiw, fel llawer o sefydliadau eraill, mae ein dyfodol mewn perygl ac mae amser i ni ymestyn allan i'r gymuned am help. Mae ein swyddogion ffyddlon, gweithgar a triw wedi dod i ddiwedd eu hamser ar ôl blynyddoedd o wasanaeth diflino, a rŵan mae angen i ni chwilio am wirfoddolwyr fasai'n fodlon camu i'r bwlch. Rydym angen 2 warden, ysgrifennydd, a chefnogaeth yn yr ymdrech i godi arian tuag at yr apêl i dalu am fwy o waith atgyweirio a.y.b.

Rydym yn chwilio am bobl gydag amser ac egni i'w gynnig, brwdfrydedd at yr achos, sgiliau perthnasol a phrofiad o gydweithio. Os oes gennych chi ddiddordeb ac eisiau cael sgwrs ymhellach, yna a wnewch chi gysylltu â'r Parchedig Doctor Gareth Lloyd neu'r Caplan Bro, Parch Sara Roberts.

Nid yw'n or-ddweud i gyhoeddi'r pryder fod ein dyfodol yn un ansicr iawn heb eich cymorth chi. Er mwyn adeiladu ar ffydd y gorffennol a sicrhau ein presenoldeb yma i'r dyfodol, nawr yw'r amser i ddod ynghyd a chydweithio.

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus ar Ddydd Lun 19eg o Fehefin yn Eglwys Glanogwen am 7 o'r gloch er mwyn trafod y materion pwysig hyn a gwahoddir chi'n wresog i fynychu a chyd-drafod ein dyfodol.

Mewn Ffydd, Gobaith a Chariad
Diolch, Eglwys Crist, Glanogwen



# VRï ar daith

Gyda'u hail albwm, Islais a Genir wedi ei rhyddhau ddiwedd 2022, mae'r grŵp gwerin VRï wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn perfformio i gynulleidfaoedd ledled Cymru a thu hwnt.

Wrth gwrs, mae cysylltiad lleol i Ddyffryn Ogwen gan fod yr amryddawn Patrick Rimes yn aelod o'r triawd. Gydag Aneirin Jones (llais a ffidil) a Jordan Price Williams (llais, soddgrwth, bas dwbl), cafwyd noson ryfeddol yng nghwmni Vrï ym Mhontio yn ddiweddar.

Roedd Patrick (ffidil, llais, harmoniwm) yn amlwg yn falch o gael bod yn agos at adref ac yn mynd i hwyl wrth berfformio.

Cafwyd gwledd o gyngerdd, gyda chaneuon yn talu teyrnged i ganeuon traddodiadol, ond hefyd yn bwrw golwg o'r newydd ar rai o ffefrynnau Cymru ac yn cynnig geiriau ingol i alawon eraill.

Mae sŵn rhyfeddol lleisiau'r tri yn rhywbeth i'w fwynhau, ynghyd a'u dawn gerddorol arbennig.

Ond, roedd y sbri a'r hwyl yn amlwg ymhlith y gynulleidfa a'r perfformwyr yn ystod y cyngerdd ym Mhontio.

Mae'r daith wedi gweld y triawd yn perfformio i gynulleidfaoedd yma yng Nghymru wrth gwrs, ond hefyd ledled Lloegr ac yn yr Alban. Mae mwy o fanylion am berfformiadau'r grŵp ar gael ar eu gwefan: **www.vri.cymru**

Bydd darllenwyr selog yn cofio o rifyn Mai o Lais Ogwan y bydd Patrick yn rhan o sioe Creigiau Geirwon gan Gwmni Pendraw fydd ym Mhontio, Bangor o 22 tan 24 Mehefin.

Bydd Patrick yn perfformio cerddoriaeth fyw gyda Casi Wyn a Mared Williams fel rhan o'r sioe sy'n adrodd hanes tywyswyr mynydd cynnar yr ardal.



Y triawd gwerin, VRï yn perfformio ym Mhontio yn ystod taith (Diolch i Alex Plows am y lluniau)



Patrick Rimes yn mwynhau cael perfformio'n agos at gartref

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* | *Porthaethwy (01248) 719517* | *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* | *Pwllheli (01758) 703000*

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr*
*Cludiant Preifat*
*a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Gerallt Roberts Stryd Hir ar basio ei brawf gyrru.

Llongyfarchiadau hefyd i Ioan Hartleb a lwyddodd i gwblhau Hanner Marathon Eryri – dipyn o gamp!

**Croeso i'r byd**
Ar y 3ydd o Fai, daeth Brynmor Alan i'r byd - mab i Callum O'Marah a'i bartner Catrin a brawd bach i Cillian. Mae nain a thaid Gwernydd, sef Chris a Nia O'Marah, a gweddill y teulu wedi gwirioni. Gobeithio cawn ni ei gwrdd yn Gerlan yn fuan.

Llongyfarchiadau hefyd i Ellen a David Edwards Glanrafon am ddod yn nain a thaid eto. Mae Gareth eu mab a'i bartner Beth Evans wedi cael hogyn bach. Croeso i'r byd Jac Ellis Edwards.

Daeth babi bach newydd i Res Gerlan hefyd. Llongyfarchiadau i Marian a Chris ar enedigaeth eu mab Derw Steffan.

**Penblwydd priodas**
Mae Ricky a Michelle Florence Stryd Hir wedi cael rheswm i ddathlu hefyd gan eu bod wedi priodi ers 10 mlynedd. Llongyfarchiadau mawr i chi ar gyrraedd y garreg filltir arbennig yma.

**Eisteddfod yr Urdd 2023**
Llongyfarchiadau mawr i Betsi Lŵ Myfanwy o Gwernydd ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth ysgrifennu sgript wreiddiol. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol iddi ennill y gystadleuaeth yma!

## Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Mae'r gwanwyn wedi bod yn gyfnod cyffrous i'r gangen, gyda digonedd o bethau yn mynd ymlaen, gan gynnwys bore coffi llwyddiannus ddiwedd Mis Ebrill, a digwyddiadau cymdeithasol ac ymgyrchu eraill. Ar ddiwedd Mai, cynhaliwyd noson gymdeithasol ar y cyd rhwng cangen Dyffryn Ogwen a changen Bangor yng ngwesty'r Garden, Bangor. Roedd yn braf iawn mwynhau cwmni pawb a ddaeth.

Yn ddiweddar a dros y cyfnod sydd i ddod, rydym yn ymdrechu i gryfhau ein cysylltiadau gyda changhennau eraill o'r Blaid. Bydd rhai yn ymwybodol i'r tebygolrwydd fod ein ffiniau etholaethol ar fin newid, gydag etholaeth Arfon yn diflannu, ac ardaloedd Ogwen a Bangor yn ymuno gydag Aberconwy a rhannau o Orllewin Clwyd i greu etholaeth newydd Bangor Aberconwy. Rydym felly yn awyddus i gyd-weithio gydag aelodau o Fangor ac o Aberconwy a dod i nabod ein gilydd yn well cyn y newidiadau.

Mae'r gwanwyn hefyd wedi bod yn gyfnod o frwydro am wasanaethau ar ran trigolion y fro, pan ddaeth sioc ar ôl i Arriva gyhoeddi amserlen newydd oedd yn awgrymu y bydden nhw'n torri'r gwasanaeth bysiau lleol yn sylweddol. Bu i'r blaid ymateb yn sydyn, gan ysgrifennu at Arriva a Chyngor Gwynedd, a chychwyn deiseb a lofnodwyd gan bron i fil o bobl - diolch i chi gyd. Mae Arriva bellach wedi cadarnhau'r gwasanaeth am gyfnod, ac mi fyddwn fel Plaid yn parhau o bwyso am wasanaeth safonol, dibynadwy i drigolion y Dyffryn.

Ar y 1af Orffennaf, mae'r gangen yn trefnu ffair ffeirio dillad yn Neuadd Goffa Mynydd Llandygai. Gellir dod a hyd at 6 eitem gyda chi, gyda'r cyfle i'w cyfnewid am eitemau eraill. Bydd y digwyddiad yn cychwyn am 10 y bore, gyda'r elw yn mynd i brosiect Mulod Eryri sydd wedi eu lleoli yn Nhregarth. Dowch yn llu i fore hwyliog, sy'n gyfle gwych i gael dillad newydd mewn ffordd gynaliadwy, yn ogystal â chodi arian at achos da.



**Y noson gymdeithasol ar y cyd â Changen Bangor**

# Llyfr Hanes Lleol i Blant

Gyda'r awydd i sicrhau fod gan blant yr ardal wybodaeth am hanes eu bro, mae Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid wedi mynd ati i gyhoeddi llyfr sy'n adrodd hanes lleol.


Mae gwaith ar y cyd gan y Clwb Hanes, Ysgol Sul a Chlwb Gwau Carmel yn ceisio cynnig adnoddau i alluogi plant yr ardal i ddeall mwy am eu hanes yn lleol

Ers talwm, byddai gan blant yr ardal y rhyddid i chwarae'n braf ym mhob twll a chornel o'r pentref. Gwyddai pawb am bob llwybr, nant, stryd a chae gan adnabod enw pob un.

Byddai plant yn chwarae ar lethrau'r Foel a'r Ffridd, mewn hen dai gwag a thomennydd llechi, yn ogystal ag yn y cae chwarae.

Erbyn heddiw, nid yw'r rhyddid yma'n bodoli i'r un graddau, ac mae'n bosib nad ydi plant yn cael yr un cyfle i ddod i adnabod eu cynefin cystal.

Bwriad y llyfr 'Defaid Doniol Caellwyngrydd' ac adnoddau eraill sydd ar gael trwy law Clwb Hanes fydd helpu i alluogi plant yr ardal i ddysgu mwy am hanes lleol.




"Llyfr yw hwn sy'n cynnwys adnoddau i gynorthwyo plant ifainc i ymgyfarwyddo â rhywfaint o hanes y pentref," meddai'r disgrifiad ar wefan y Clwb Hanes.

"Ceir ynddo luniau o ddefaid lliwgar (teganau a gafodd eu gwau gan aelodau o Glwb Gwau Carmel), a rhigymau syml sy'n cynnwys enwau gwahanol fannau yn Rachub, Llanllechid a Chaellwyngrydd.

"Mae ynddo hefyd wybodaeth hanesyddol syml iawn sy'n gysylltiedig â rhai o'r mannau a grybwyllir."

Yn ogystal â'r llyfr, mae cyfres o gardiau gwybodaeth hefyd wedi eu paratoi sy'n tynnu sylw at fannau o ddiddordeb wrth fynd am dro o gwmpas yr ardal.

Mae'r llyfr ar werth am £5. Ceir rhagor o wybodaeth amdano, a'r cardiau gwybodaeth ar wefan y Clwb Hanes **www.clwbhanesrachub.co.uk/plantos-rachub**, gan gynnwys manylion os ydych am drefnu derbyn copi o'r cardiau mynd am dro dros e-bost.

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

**Cydymdeimlo**

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Menna Thomas, Tan y foel, 42 Caeau Gleision yn 72 mlwydd oed. Roedd yn briod â'r diweddar Bob Thomas ac yn fam i Paula ac Arwel ac yn fam yng nghyfraith i Alan a Cyrina ac yn nain hwyliog i'r wyrion a'r wyresau. Bu gwasanaeth preifat yn y cartref ac yn gyhoeddus ym mynwent Llanddeiniolen. Derbyniwyd rhoddion yn ddiolchgar tuag at Ward Tryfan.

Yn sydyn yn ei gartref ym Methel bu farw Alun Griffidd Jones yn 41 mlwydd oed. Mab i John a'r ddiweddar Gillian. Tad balch Jac a chyfaill hoff Amy, brawd gofalus Sian a brawd yng nghyfraith hoff Llion. Roedd yn ewythr annwyl i Twm a Hâf. Roedd Alun yn un o hogiau Rhiwlas, wedi ei fagu yn y pentref, gan symud i Fethel wedi colli Gillian. Bu gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Bangor a derbyniwyd rhoddion tuag at GISDA Caernarfon.

**Draw yn Lerpwl**

Rydwyf droeon wedi sôn am Lleuwen a Manon Steffan, ond hanes y brawd bach y tro yma. Fe gofiwch fod Lerpwl wedi cynnal y gystadleuaeth canu gan nad oedd yn bosib ei chynnal yn Wcráin a Caryl Bryn oedd yno ar ran y rhaglenni Cymraeg. Bu'n holi a thrafod gydag Iwan Steffan, sydd wedi ymgartrefu yn Lerpwl ers sawl blwyddyn bellach a braf oedd ei weld.

**Darlith Streic Chwarel y Penrhyn**

Braf oedd gweld cynifer wedi dod i'r neuadd i glywed am ddigwyddiadau yn Rhiwlas a Phentir yn ystod y streic a llawer o'r gweithwyr yn mynd i ffwrdd i'r de, roedd fy nhaid yn un o'r rhai hynny ac y mae gennym lun ohono mewn ysgol Sul yn un o gapeli yn y cymoedd.

**Bedyddio**

Hefyd yn yr un rhifyn roedd hanes Owain Jones o'r pentref wedi cael ei fedyddio gan y Parchedig Nerys Griffiths, yng nghapel Jerusalem. Roedd ei nain a'i daid wedi sôn ers to ei fod yn awyddus i gael ei fedyddio ac roedd yn falch fod ei ddymuniad wedi cael ei wireddu.

**Cofion**

Mae sawl un o'r pentref heb fod yn dda yn ddiweddar ac anfonwn ein cofion atoch.

**Sgyrsiau yn y Neuadd**

Yn ystod mis Mai cyflwynodd Cynrig ddwy sgwrs yn y Neuadd dan y testun 'Helynt yn Rhiwlas a Phentir yn ystod Streic Fawr Chwarel Penrhyn 1900-1903'. Roedd un cyflwyniad drwy gyfrwng y Gymraeg a chafwyd cynulleidfa o 50 a mwy. Hefyd, cyflwynwyd y testun drwy gyfrwng y Saesneg gyda thua 30 yn bresennol.

Rhwng y ddau ddigwyddiad casglwyd swm o £270, a bydd yr arian yn mynd tuag at welliannau i'r adeilad.

Roedd ymchwil wedi dangos bod Rhiwlas a Phentir wedi dod yn bur enwog yn ystod y streic gyda nifer o gyfeiriadau i'r pentrefi mewn papurau newydd. Bu tensiwn ac anghydfod pan aeth rhai yn ôl i'r gwaith yn 1901 a lleolwyd tri heddwas yn Rhiwlas er mwyn ceisio cadw trefn.

*'Doedd yr anrhefn hwn yn fwy mynych a chyndyn yn unlle nag yn Rhiwlas'* (Gwalia, Gorffennaf 9, 1901)

Roedd Cynrig wedi cyfweld Dilys Parry ac wedi cynnwys hanes ei thaid John Owen yn y sgwrs. Yn 1901 bu i John Owen dreulio noson mewn carchar ym Mangor yn dilyn ffrwgwd ym Methesda yn ystod protest yn erbyn y rhai aeth yn ôl i'r gwaith. Dilynwyd hyn gan achos llys yng Nghaernarfon ble ei cafwyd yn ddieuog o aflonyddu gweithwyr wrth iddynt ddychwelyd o'r chwarel.

Yn fuan ar ôl hyn, ac fel nifer eraill yn yr ardal, aeth John lawr i weithio i byllau glo de Cymru. Ar silff ben tân yn nhŷ Dilys mae lamp glöwr John yn cael lle anrhydeddus ac yn dystiolaeth o safiad John yn erbyn yr Arglwydd Penrhyn a'i reolwr E.A.Young.

**Cyfle arbennig**

Yn rhifyn mis Mai roedd Osian yn sôn am y cyfle a gafodd ef ac eraill mewn prosiect arbennig gan bapur newydd Y Cymro. Braf oedd darllen am eu brwdfrydedd. Mi fyddaf, yn y dyfodol Osian, yn swnian am erthygl gennyt!

**Parhad o'r dudalen flaen**

# Llwyddiant yn yr Eisteddfod




Yn cystadlu dan y ffugenw 'Tannau Perfedd', roedd Gwydion Rhys yn annog dyfalbarhad i unrhyw ddarpar-ymgeisydd.

"Mae ennill y Fedal Gyfansoddi yn rhoi boddhad mawr i mi o wybod bod pobl yn gwerthfawrogi fy ngherddoriaeth," meddai.

"Dw i wedi cyrraedd y tri uchaf yng nghystadleuaeth y Fedal Gyfansoddi deirgwaith o'r blaen, felly mae'r neges i unrhyw gyfansoddwr ifanc yn glir - daliwch ati i greu!"

Daeth naw cyfansoddiad i law'r beirniaid yn y gystadleuaeth eleni, ond gwnaeth 'Pum Pedwarawd' gan Gwydion gryn argraff ar Dr Owain Llwyd a Dr Daniel Bickerton.

Dywedodd y beirniaid: "Dyma gyfansoddiad a chyfansoddwr ifanc, hyderus, modern ac o safon uchel iawn sy'n llawn haeddu'r Fedal Gyfansoddi eleni. Yn wir, roedd y ddau feirniad yn unfrydol bod darganfod y llais ifanc yma, drwy'r brif gystadleuaeth bwysig hon, yn hynod o gyffrous ar gyfer dyfodol a chenhedlaeth nesaf o gyfansoddwyr Cymru."

"O'r defnydd o dechnegau effeithiol hyd ddeialog positif parhaol yr offerynnau, roedd Tannau Perfedd wedi ein swyno o'r nodyn cyntaf hyd i'r diwedd ac yn ein gadael ni yn awchu i glywed mwy!

"Tu hwnt i'r ymwybyddiaeth gref o offerynïaeth a thechneg sy'n amlwg yn y gwaith, crefft fwyaf y cyfansoddwr yw bod pob symudiad yn gweithio fel uned er mwyn creu cyfanwaith, pendant, cryf a synhwyrol."

Mae Gwydion yn gyn-ddisgybl Ysgol Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen, ac ar fin cwblhau ei ail flwyddyn yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain lle mae'n astudio Cyfansoddi gydag Alison Kay.

Cyn mynd i'r Coleg yn Llundain cafodd wersi cerddorol yng Nghanolfan Gerdd William Mathias, Caernarfon ac yna'n adran iau Coleg Cerdd y Gogledd, Manceinion, lle cafodd wersi cyfansoddi gyda Joshua Brown.

Yn 6 oed dechreuodd ar wersi piano, a gwersi cello ers yn saith, mae Gwydion wedi bod yn gystadleuydd cyson yn Eisteddfod yr Urdd dros y blynyddoedd. Er mai cyfansoddi sy'n mynd â'i fryd bellach, mae'n dal i fwynhau cyd-chwarae, ac mae'n aelod brwd o Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru.

Mae'n amlwg fod yr holl ymdrech yn talu ar ei ganfed, ac mae Gwydion yn ddiolchgar o'r negeseuon lu sydd wedi cyrraedd ers y seremoni.

"Roedd cael fy anrhydeddu yn y seremoni yn uchafbwynt cofiadwy i ddiwrnod hyfryd tu hwnt. Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi anfon eu llongyfarchiadau a'u dymuniadau da," meddai.

Gwelwyd sawl un o blant a phobl ifanc Dyffryn Ogwen yn llwyddo ar lwyfannau'r Eisteddfod, ac yn y cystadlaethau creadigol eraill hefyd. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu – go dda chi!

## Llandygái

**Diolch**
Mae Mrs Pauline Edwards o'r pentref yn diolch yn fawr iawn i bawb yn Llandygai a Talybont am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80.


**CHRIS GRIFFITHS CYF**
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

**L. Sturrs**
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Marchnad Ogwen
**Gorffennaf 8fed**
9.30am - 1pm
Neuadd Ogwen
Bwydydd,
Crefftau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk
facebook instagram


## Eglwys Sant Tegai, Llandygai



Taith Staff a Gwirfoddolwyr Castell Penrhyn gyda Rhys Mwyn ym mynwent St Tegai

**Taith Gerdded Olaf 2023**
Ar Fai 18fed daeth criw o staff a gwirfoddolwyr newydd Castell Penrhyn dan arweiniad Rhys Mwyn yr hanesydd, er mwyn codi ymwybyddiaeth o hanes yr eglwys a'r pentref. Croesawyd y grŵp gan y clychau cyn iddynt glywed sgwrs gan Edmond Douglas Pennant, Ann E. Williams, y ddau Warden, a Rhian Llewelyn Jones am nodweddion pwysig yr adeilad a'r fynwent. Cawsant fraslun o hanes yr eglwys cyn troi eu sylw at feddrod yr enwog John Iorc, sef Archesgob John Williams, un o gyndeidiau y teulu Penrhyn. Gwenodd yr haul ar y daith a chafwyd gryn holi a thrafod.

**Croeso i bawb**
Cofiwch, brysiwch draw! Mae'r eglwys ar agor i bawb yn ddyddiol o ganol bore tan hwyr prynhawn fel rhan o'r cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Gallwch ddarganfod hanes yr eglwys ar bosteri a labelau yn yr adeilad.

**Penblwydd Hapus**
Gyrrwn ddymuniadau da i Anne Williams (BT) o Fro Emrys, Talybont sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar ddiwedd mis Mehefin. Gobeithio wnewch chi fwynhau eich diwrnod!

**Gwaeledd**
Mae sawl aelod o'r gynulleidfa yn dioddef o anhwylder neu yn disgwyl triniaeth; mae Helen Gill a Liz Jones yn ein gweddïau.


**Newyddion am y fynwent**
Ers blynyddoedd bellach mae Eglwys St Tegai wedi gwarchod erw Duw drwy ymatal rhag torri'r gwair ar ddechrau'r Gwanwyn i helpu i flodau gwyllt a pheillio i ffynnu. Mae'r traddodiad yma yn gweddu'n ddelfrydol i'r ymgyrch "Mai Di-dor" mwy diweddar sydd wedi ei sefydlu dros y wlad er lles natur a phobl. Ynghyd â mannau cyhoeddus gwyrdd eraill mae ein garddwr, Siôn Aelwyn Roberts wedi dal yn ôl tan ddiwedd Mai i dorri'r gwair i roi cyfle i'r cennin Pedr, briallu a







Y llwybrau ym mynwent St Tegai dros “Mai Di-dor”.



Blodau gwyllt “Mai Di-dor” ym mynwent St Tegai.

chlychau’r gog flodeuo. Cadwyd y llwybrau ar agor yn y cyfamser drwy garedigrwydd Alan Radcliffe o’r pentref a wirfoddolodd i hwyluso mynediad at y beddau.

Yn anffodus, roedd angen galw ar bensaer yr esgobaeth i archwilio cyflwr drws y clochdy ar ôl i un o’r colfachau ddisgyn yn ddarnau! Mae’r drws yn rhan o’r adeilad gwreiddiol ac felly yn gofrestredig. Ar ôl trafodaeth, gosodwyd drws dros-dro er mwyn sicrhau diogelwch y clochyddion a’r adeilad. Cost ychwanegol ond dim peintio’r drws am dipyn!

**Rhodd St Tegai 2023**

Dathlwyd diwrnod ein nawddsant St Tegai ar Fehefin 5ed eto eleni. Roedd y Sul blaenorol, sef Mehefin 3ydd, yn gyfle i aelodau’r eglwys ac i ffrindiau sydd gyda chysylltiadau personol â phentref Llandygai, gynnig rhodd ariannol i ddathlu bywyd a gwaith y sant ar ddydd ei ŵyl. Parhawn i dderbyn yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i “Eglwys Llandegai /Church”, neu arian parod mewn amlenni trwy’r blwch postio i’r swyddogion; Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719); Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369) neu Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac e-bost ar eich rhodd: mae’n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys.

Wrth gwrs mae’n bosib talu drwy drosglwyddiad banc
(Cyfrif yr Eglwys: **30-90-43 00098435**.)

Diolch i bawb o’r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i’n hachos

**Gwasanaethau**

**Ar y Sul**

Mae’r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a’r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**

Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a’r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu’r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy’n dilyn.

**Manylion Cyswllt**

Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu’n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â’r eglwys.

# YMA O HYD

**Gwahoddiad i Aduniad cyn-ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen 1965 – 72.**

Mae ymron i 20 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r criw a fu yn yr ysgol rhwng 1965-72 gyfarfod yng ngwesty y Douglas i ddathlu 30 mlynedd ers inni adael pyrth yr academi nôl yn 1972.

Fe gynhaliwyd cyfarfod llawer iawn llai o ran niferoedd yn y gwanwyn eleni yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Yn dilyn y noson fe gafwyd trafodaeth ynglŷn â sut gallem ddod ynghyd unwaith eto, a dyma ddechrau arni.

Fe gynigiwyd y gall gwahoddiad i unrhyw un a oedd yn ddisgybl yn yr ysgol rhwng 1965-72 esgor ar lawer mwy o niferoedd.

Ar hyn o bryd does dim templad o natur y cyfarfod. Anffurfiol iawn, wrth reswm, a chyfle i'r criw hel atgofion ac ati. Roeddem am gynnig dyddiad yn yr Hydref eleni ond mae lled hyblygrwydd yn hyn o beth.

Ar hyn o bryd hoffem gael syniad o lefel y diddordeb mewn cyfarfod o'r fath. Gallwn wedyn roi rhaglen ynghyd yn cynnig lleoliad, darpariaeth, lluniaeth ac yn y blaen.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod o’r fath, tybed allwch chi yrru e- bost i mi yn cadarnhau enw llawn ( a gwreiddiol lle bod priodas a newid enw wedi digwydd).

Rwyf innau yn euog o’r diwethaf gan i mi, ymron i hanner can mlynedd yn ôl, fabwysiadu Llywelyn yn unig. Hefyd, pan yn ymateb tybed allwch chi roi eich cyfeiriad personol a modd i gysylltu, ac eto os mynnwch, grynodeb byr o’r hyn rydych wedi bod yn ei wneud ers 1972?

Gan obeithio clywed ganddoch yn llu.

**Owain Llywelyn**
owain.llywelyn@yahoo.co.uk



# Y Sioe yn ei hôl

Roedd hi'n wych cael Sioe Dyffryn Ogwen yn ei hôl eleni - a diolch am y tywydd bendigedig

Llongyfarchiadau i'r holl gystadleuwyr am y safon arbennig - y rhai ar bedair coes a phawb arall!

Diolch i Richard Jones am rai o'r lluniau



## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Ann Nora Carmella Williams Bridi, gwraig i Vittorio a mam Jennifer a'r diweddar Sam. Merch i'r diweddar Meirion a Bruna Williams Maes Bleddyn a chwaer i Gisella. Bu farw Ann mewn ysbyty yn Trento yn Yr Eidal ar 21ain o Fai 2023. Roedd Ann wedi byw yn yr Eidal ers 45 o flynyddoedd. Cydymdeimlwn gyda'i theulu a'i ffrindiau i gyd.

Dymunwn wellhad buan i Rhian Jones 3 Bron Arfon wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

Dymuna Mrs Olivia Williams a'r teulu o 4 Tyddyn Canol diolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu cymorth a'u cydymdeimlad ar ôl iddi golli ei gŵr; John Griffith Williams (Jackie).

**Clwb Hanes Rachub**

I gloi tymor 2022-2023 Clwb Hanes Rachub, croesawyd Mr Trystan Lewis, i roi sgwrs am y cerddor, emynydd, arweinydd cynulleidfaol a'r gweinidog Edward Stephen neu 'Tanymarian'. Gan fod Trystan ei hun yn gerddor dawnus, yn unawdydd llwyddiannus, yn arweinydd corau a chymanfaoedd yng Nghymru a thu hwnt, mae ei wybodaeth, ei ddiddordeb a'i frwdfrydedd yn y maes yn fyrlymus o amlwg.

Cefndir cyffredin iawn gafodd Edward Stephen, yn wreiddiol o Faentwrog, yn brentis teiliwr, a ddechreuodd bregethu yn Llan Ffestiniog cyn mynd i astudio yng Ngholeg yr Annibynwyr y Bala. Tra bu yn y coleg, ymroddodd i ddysgu cerddoriaeth a chyfansoddodd amryw ddarnau. Ym 1852, cyfansoddodd yr oratorio gyntaf yn yr iaith Gymraeg, sef 'Ystorm Tiberias', ac yn dilyn hynny, nifer o ganeuon unigol. Ond yr hyn oedd yn hynod am Tanymarian oedd na chafodd brofiadau o weld cyngherddau 'mawr' gan feistri cerddorol y byd fel Handel a Beethoven, er ei fod wedi ei alw yn 'Handel ei genedl'. Nid oedd, fel nifer o'i gyfoeswyr cerddorol, wedi bod yn Lerpwl a Manceinion yn gyson i weld perfformiadau o gampweithiau corawl clasurol, felly, yn wyrthiol, gallodd gyfansoddi heb dderbyn addysg gerddorol ffurfiol, na llawer o ddylanwadau o'r tu allan. Daeth yn weinidog i Garmel a Bethlehem, Talybont ym 1856, a hynny mewn cyfnod cyffrous iawn ym myd cerddoriaeth yng Nghymru,- cychwyn cymanfaoedd canu a'r tonic sol ffa – ac roedd cerddoriaeth o'r safon uchaf i'w glywed yn yr ardal, - yn arbennig yn y Gerlan a Charneddi. Cyhoeddodd Tanymarian lyfr tonau yn y cyfnod yma. Bu farw ym 1885, ac roedd y niferoedd oedd yn ei angladd yn Nhalybont yn dystiolaeth o garisma'r gŵr hynod hwn,- 4000 o alarwyr, nifer helaeth o weinidogion yn ogystal â chôr o 500!!

Diolch yn fawr, Trystan, am sgwrs arbennig iawn!



**Dyma Trystan Lewis yn cael cyfle i weld ffon gerdded Tanymarian gan Mrs Helen Williams. Mae traddodiad yng Nghapel Carmel fod pob gweinidog yn gofalu am y ffon yn ystod ei gyfnod yn y capel.**

Cofiwch hefyd am ein gwefan- 'Clwb Hanes Rachub' neu www.clwbhanesrachub.co.uk a hefyd am ein llyfr ar gyfer y plant lleiaf, 'Defaid Doniol Caellwyngrydd' a fydd ar werth yn lleol yn fuan.

Diolch yn fawr i'r holl siaradwyr gwadd a fu'n ein diddori yn ystod y tymor, yn ogystal â swyddogion y Clwb Criced, a Rhys a Siân am eu cymorth technolegol.

Cawsom dymor rhagorol, ac edrychwn ymlaen at ail-gychwyn ym mis Medi.

## Carmel Llanllechid

Mae un o'n haelodau ni yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd ac wedi cael llawdriniaeth, sef Mrs Rhian Roberts, Bethesda. Rydym ni'n meddwl amdani hi ac yn gobeithio ei bod hi'n teimlo ychydig yn well erbyn hyn. Rydym ni'n dymuno gwellhad buan iddi ac yn anfon ein cofion gorau ati.

**Yr Ysgol Sul**

Cynhaliwyd oedfa arbennig i ddiolch am Gymanfa Ysgolion Sul Cylch Bethesda a Bangor yng Ngharmel ar 21 o fis Mai. Cymerodd yr ieuenctid a'r plant at y rhannau arweiniol ac yn cyflwyno eitemau o ganu ac adrodd penillion am yr Ysgol Sul o waith Mrs Marian Jones. Mr Neville Hughes oedd yn llywyddu ac roedd Neville a Mr Joe Hughes yn olrhain ychydig o hanes y Gymanfa. Mi fuom ni'n canu emynau yn hwyliog iawn. Roedd croeso i bawb fynd i gael panad a chacen a sgwrs wedyn yn yr ysgoldy - yr hen a'r ifanc fel ei gilydd. Diolch am y Gymanfa a'i dylanwad sy'n parhau!

**Y Clwb Gwau**

Yn ystod y misoedd diwethaf yma bu aelodau'r Clwb Gwau yn brysur yn gwau gwisgoedd a chapiau bychain i fabanod newydd anedig yn un o wledydd tlawd Affrica. Derbyniwyd yn agos i gant ohonyn nhw i gyd a diolch i'r merched am eu gwaith nhw a diolch hefyd i gyfeillion a rhai o aelodau Clwb Gwau Bethesda am ein helpu ni.

Mi gawsom ni ein trip blynyddol i Fostyn a'r *Tweed Mill* ar ddiwedd mis Mai. Roedd hi'n ddiwrnod braf iawn ac mi gawsom ni amser ardderchog yng nghwmni ein gilydd drwy'r dydd. Diolch i Derfel am drefnu ynglŷn â'r bws ac i Dafydd Glyn am ein gyrru mor ofalus.





**Capel Carmel**

*Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
Mehefin 18: Oedfa.
Mehefin 25: Gweinidog.
Gorffennaf 2: Gweinidog (Cymun)
Gorffennaf 9: Oedfa.
Gorffennaf 16: Oedfa.
Gorffennaf 23: Gweinidog.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur pob nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB

# YSGOL LLANLLECHID

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**
Llongyfarchiadau gwresog i'r Côr Cerdd Dant ar gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri. Bu'n brofiad gwerth chweil i'n disgyblion ac roeddent yn werth eu gweld a'u clywed! Diolch i Mrs Humphreys am ei gwaith, ac i'n holl rieni am eu cwmni a'u cefnogaeth! Cafwyd diwrnod bendigedig yn yr heulwen!

**Sioe Dyffryn Ogwen**
Daeth canlyniadau lu i'n disgyblion ym maes Celf a Chrefft yn y sioe. Llongyfarchiadau i chi gyd, a da iawn chi!

**Canlyniadau Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**
Margiad Morris, Argraffu Bl 5 a 6 – 1af
Eban Hughes, Dylunio a thechnoleg bl2 ac iau – 1af
Eban Hughes, Cynllunio Crys T Bl 2 ac iau – 2il
Eban Hughes, Creadigol 2D blwyddyn 2 ac iau – 2il
Efa Rhos Hughes, Creu tecstiliau Bl 2 ac iau - 1af
Margiad Morris, Gemwaith bl 5 a 6 - 2il
Margaid Morris, Pyped bl 5 a 6 - 2i
Margiad Morris, Tecstiliau Creadigol Bl 5 a 6 - 2il
Grwp Ysgol Llanllechid, Creadigol 2D Bl6 ac iau 3ydd


**Caellwyngrudd, Talcen y Deyrnas a Moel Faban**
Bu dosbarthiadau Mrs Wilson, Mr Stephen Jones a Mr Sion Llywelyn yn crwydro'r ardal leol ac yn dysgu'r hen enwau. Cafwyd cyfle i ymlacio wrth lidiart y mynydd, cyn rhyfeddu at yr olygfa o Dalcen y Deyrnas.



Y Côr Cerdd Dant yn yr Eisteddfod

**Addysg Ers Talwm**
Mor braf yw bachu ar gyfleoedd i fynd a'n plant allan i ddysgu am eu milltir sgwâr, yn enwedig gan fod cymaint o gyfoeth ar ein stepen drws! Mor wahanol oedd hi yn nyddiau'r prifardd Emrys Edwards, oedd yn traddodi ei araith, 'Pesda i Mi' yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda, ar Fawrth 10fed, 1976. "*Gwyddem fwy am y Rockies nag am y Carneddau a'r Wyddfa. Afonydd St. Lawrence a Mississippi a'r Amazon oedd yn ein llyfrau, yn lle'r Ogwan.*"

**Croeso Nôl**
Braf iawn oedd croesawu cyn-ddisgybl hoff yn ôl atom, sef Sioned Carran. Cafwyd amser da yn ei chwmni yn hel atgofion melys am Ysgol Llanllechid. Anhygoel fel mae ein cyn-ddisgyblion yn teithio i bedwar ban byd, ac yn mynd a 'chydig bach o'n hysgol ni hefo nhw! Brysia nôl i'n gweld eto Sioned.



Sioned Carran



Ar y ffordd i Lyn Idwal



**Crwydro'r Fro**
Aeth dosbarthiadau Mrs Rona Williams a Mrs Tegid, gyda Mr Stephen Jones yn arwain, o amgylch Llyn Idwal, lle cafwyd cyfle i wrando ar hanes Idwal gawr a llawer mwy! Cafodd dosbarth Mrs Rona Williams fynd ar grwydr i ddysgu am Eglwys Llanllechid; Yr Hen Gwt Barbar, Lon Groes; Stryd Doctor; Royal Oak; Capel Carmel; Caellwyngrydd; Siop y Post a thŷ William Griffith, Hen Barc. Diolch i Mrs Marian Jones ac aelodau'r Clwb Hanes am adnoddau gwerth chweil i ddysgu hanes lleol i blant, a diolch hefyd i Mr Dilwyn Pritchard.

**TRE'R CEIRI**
Ar grwydr i ben Tre'r Ceiri aeth Dosbarth Miss Haf, o dan arweiniad Mr Stephen Jones, cwmni Anelu. Mae'r olion hyn, o Oes yr Haearn, 450 o fetrau uwchben lefel y môr. Testun rhyfeddod ynddo'i hun!

# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

### Geni

Llongyfarchiadau mawr i David a Carol Williams, Fferm Tyddyn Heilyn, Caerhun ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch fach, Cariad Rose, i Huw Vaughan (mab David a Carol) a'i wraig Esther Hayden-Williams, yn St Albans, chwaer fach annwyl i Mair.

### Cartref Newydd

Croeso cynnes iawn i'r ardal i deulu newydd o Fethesda, sef Geraint a Kat Jones a'u dwy ferch Frea a Rosie. Maent wedi ymgartrefu ym Mhenhower Uchaf, Caerhun. Dymunir pob hapusrwydd a llawenydd i chwi yn eich cartref newydd.

### Bingo

Cafwyd noson hwyliog iawn yn y Bingo yng Nghanolfan Glasinfryn ar 19 Mai i godi arian at y teulu o Friars Avenue, Bangor, a gollasant eu tŷ a'u cartref mewn tân yn ddiweddar. Gwnaed elw o £214. Mae'r teulu yn hynod ddiolchgar i bawb am gynnal y noson iddynt. Diolch i bawb hefyd am eich cyfraniadau hael tuag at y gwobrau, tombola a raffl, gwerthfawrogir yn fawr. Cynhelir y Bingo nesaf ar 23 Gorffennaf am 7yh, gyda'r arian yn mynd tuag at Fanc Bwyd y Gadeirlan ym Mangor.

### Y Ganolfan

Siomedig iawn bu'r presenoldeb yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 23 Mai yn y Ganolfan. Mae angen mwy o bobol ar y pwyllgor, os oes gennych ddiddordeb, gadewch i aelod o'r pwyllgor wybod. Cafwyd yr adroddiadau arferol gan y Cadeirydd a'r Trysorydd, gan ddatgan fod sefyllfa ariannol iach yn bodoli ar hyn o bryd! Mae'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar i Gyngor Cymuned Pentir am bob cefnogaeth yn ariannol yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cafwyd pwyllgor i ethol swyddogion. Ail etholwyd Vivek yn Gadeirydd a Mair yn Drysorydd. Yr oedd pawb yn hynod falch fod Jocelyn wedi ymgymryd â swydd Ysgrifennydd. Talwyd teyrnged i Marred Glynn Jones, y cyn Ysgrifennydd, am ei gwaith hollol gydwybodol a dibynadwy dros nifer o flynyddoedd. Mae Marred wedi symud i Fangor ers 5 mlynedd bellach ond 'roedd wedi cytuno i gario 'mlaen â'r swydd nes cael ysgrifennydd newydd, felly diolch o galon Marred am dy holl waith. Teimlai'r pwyllgor y buasant yn hoffi gweld mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Ganolfan, mae ffioedd llogi'r Ganolfan yn rhesymol iawn, os am gynnal digwyddiad neu ddosbarthiadau cysylltwch â Mair (rhif ffôn ac e-bost uchod)

### Cylch Glasinfryn

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cylch ar 10 Mai yn y Ganolfan. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mair. Cyflwynodd Tomos Jones, Rheolwr Prosiect i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, mae o yn bennaf gyfrifol am Brosiect Planhigion sy'n ymledu o'n gerddi. Yn 2019 derbyniodd Tomos fedal aur yn Sioe RHS Chelsea am ei arddangosfa ar "Planhigion Addurniadol : ymledaenwyr y dyfodol?" Cafwyd cyflwyniad arbennig gyda chymorth taflunydd ar y pwnc. Mae enghreifftiau adnabyddus ym Mhrydain ac Iwerddon o rywogaethau sydd wedi dianc o'n gerddi ac yn achosi problemau fel Clymog Japan, Rhododendron, Jac y Neidiwr a sawl planhigyn dyfrol. Yn ddiddorol mae mwy na hanner y rhywogaethau yn fflora Prydain yn anfrodorol ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn blanhigion a ddihangodd o erddi! Dosbarthodd bamffledi difyr i ni i'w darllen ar pa blanhigion i blannu ac i nodi pa rai byddwn yn feddwl fyddai dangos arwyddion o fod yn ymledol. Os byddwn yn tybio fod gennym blanhigyn all fod yn ymledol mae gwefan ar gael gan "Plant Alert" i chwi adrodd yn ôl. Wedi'r sgwrs cafwyd trafodaeth fywiog ar y pwnc. Talwyd y diolchiadau gan Jean. Jocelyn ddarparodd y te, gyda helpwyr! Liz enillodd y raffl. Hanes Pier Bangor gyda Averil Wayte fydd ar 14 Mehefin ac yna edrychwn ymlaen yn fawr i gyfarfod 12 Gorffennaf pan awn am ymweliad â Stiwdio Anna Pritchard, Dylunydd Tecstiliau, yn Waen Wen. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni, rhowch wybod o flaen llaw drwy ffonio Mair (rhif fel uchod). Ni fydd cyfarfod ym mis Awst.

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen
Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk
ECA
CHAS

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

### Ras Hwyl Pentir

Bydd y Ras Hwyl flynyddol yn cael ei chynnal nos Fercher, 12fed Gorffennaf am 19.00

Mae'r cofrestru yn digwydd ar Sgwâr Pentir o 17.45 ymlaen a'r elw yn mynd tuag at 'Apêl Ukrain' a 'Tyfu er Newid'.

Bydd y ras ei hun yn cychwyn o Rhyd-y-Groes ac yn dilyn llwybrau distaw a chaeau lleol. Mae'r ras yn addas i blant ac oedolion gyda phellter o 4.5km.

Rhagor o fanylion ar gael ar www.facebook.com/pentirfunrun

### Llwyddiant wrth rwyfo

Ym mis Mai bu Cedol Dafydd o Bentir a'i bartner rhwyfo Jamie Gere (Caergrawnt) yn




cystadlu dros Brydain yn ei ras ryngwladol gyntaf. Cynhaliwyd y regata yn ninas Duisburg (yr Almaen). Mi lwyddon nhw i ennill yng nghategori'r dyblau. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau a dymuniadau gorau iddyn nhw yn y ras nesaf yn yr Iseldiroedd ddiwedd Mehefin.

## Eglwys Sant Cedol

### Te Bach

Prynhawn Mercher, Mai 3ydd cynhaliwyd ein Te Bach misol. Roedd yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog. Enillwyd gwobr gyntaf y raffl gan Marian, sef bocs o fisgedi ac aeth yr ail wobr i Marian sef bocs o siocled. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r gloch y prynhawn a'r digwyddiad nesaf ar Orffennaf 5ed. Mae croeso cynnes i chwi ymuno gyda ni am brynhawn hwyliog gyda phaned, teisen a sgwrs.

### Bore Coffi

Bore Sadwrn, Mehefin 13eg cynhaliwyd bore coffi yng Nghanolfan Glasinfryn gyda stondinau cynnyrch cartref, tombola a raffl. Roedd yn fore llwyddiannus a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y bore coffi nesaf ym mis Medi gyda'r dyddiad i'w gadarnhau.

### Gwasanaethau

Mae Gwasanaeth dydd Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau gyda phaned a sgwrs i ddilyn.

### Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud a'r eglwys cysylltwch gyda'r Parchedig Dr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (Warden) 07719 918686 ar gael os am unrhyw wybodaeth neu am sgwrs.





Gig gyntaf y grŵp Ofergoelus yn nhafarn Y Fic

# Gig gyntaf Ofergoelus yn plesio

Roedd yn fraint cael clywed y chwechawd talentog Ofergoelus yn eu gig gyntaf yn y Fic nos Wener Ebrill y 28ain.

Band disglair iawn sy'n plethu roc swynol a gwerin yw Ofergoelus, gydag un troed yn y 70au gyda chaneuon swynol tra'n plethu naws cyfoes hefyd.

Roedd eu set yn gymysgedd hyderus o ganeuon tafod yn y boch ysgafn a fyddai'n gweddu'n dda ar y radio, i ganeuon bachog sy'n dangos aeddfedrwydd a dawn. Er mai gig gyntaf y band oedd hwn, credaf y byddai'n gwneud casgliad safonol i album hudolus sy'n dod ag atgofion o'r band Pererin.

Roedd pob un o'r cerddorion yn wych gyda chanu swynol Gwen Edwards a chwarae brwdfrydig harmonica ei chefnder Derwyn yn uchafbwynt. Roedd naws yr offerynwyr rhythm hefyd o safon uchel yn rhoi digon o le i'w talent ddangos heb iddynt or-berfformio.

Roedd nifer o'r caneuon wedi'u cyfansoddi gan Meilyr Wyn o Fryn Caseg, gyda'r gân Ffordd ar Gau yn wirioneddol wych. Buaswn yn tybio bod y dalent o gyfansoddi caneuon gwych yn rhedeg yn y teulu gan mai mab Arfon Wyn o'r Moniars ydi Meilyr.

Roedd yn braf clywed caneuon gwreiddiol o safon er roedd y cyfer o gan John Martyn *I Don't Want to Know* yn ddiweddglo da i'r set.

Edrychwn ymlaen at glywed y band yma yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth am gerddoriaeth fyw yn y Fic ewch i **https://www.facebook.com/FicBethesda**

Rhys Jones

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Profedigaeth**

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Rita a Hugh Hughes, 7 Lôn Ddŵr, bu farw brawd Rita, John Evans, Llys y Gwynt, Llandygai ar Fai 20fed, yn dilyn cystudd a ddioddefodd yn ddewr a di-gŵyn. Ef oedd yr olaf ond un o chwe' phlentyn Arthur ac Annie Evans, Mynydd Bach, Rhiwlas.

Meddyliwn hefyd am Sandra, 13 Dolhelyg, sydd wedi colli cyfnither hoff yng Nghaer Faddon.

**Cartref newydd**

Estynnwn groeso cynnes i Denise i 62 Bro Emrys, tŷ'r ddiweddar annwyl Sister Bethan Griffiths. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd, Denise, a chawn edrych ymlaen at gael eich cwmni mewn ambell i ddigwyddiad a gynhelir yn y pentref o dro i dro.

**Penblwydd arbennig**

Daeth y teulu at ei gilydd ar Fai 21ain i ddathlu pedwerydd degawd Natalie Humphries, 6 Cae Gwigin. Pob bendith i'r dyfodol, Natalie.

**Gwellhad**

Mae'n dda gennym glywed bod David a Merfyn, brodyr Christine, 10 Cae Gwigin, gartref erbyn hyn ac yn dal i wella. Anfonwn ddymuniadau gorau am wellhad buan i bawb o'r ardal sy'n dal yn gaeth yn yr ysbyty, neu'n wael yn eu cartrefi.

**Llwyddiant**

Mae Caitlin, gôl-geidwad tîm hoci dan 14 oed Ysgol Eirias, Bae Colwyn, yn awyddus i gyhoeddi bod eu tîm wedi dod yn drydydd drwy'r wlad mewn cystadleuaeth 'Hoci Cymru' a gynhaliwyd yn ddiweddar. Da iawn chi, genod!

Byddai Caitlin ac Emily, ei chwaer hŷn, yn ffyddlon iawn yn Ysgol Sul Bethlehem ychydig o flynyddoedd yn ôl. Mae'r ddwy yn frwdfrydig dros ddysgu'r Gymraeg.

Bydd Emily yn mynd â chopi o'r 'Llais' bob mis i'w gwersi yn yr ysgol ac, yn ôl pob sôn, bydd hen drafod ar y cynnwys.

Wyresau ydynt i Liz Humphries, 6 Lôn Ddŵr, ac yn blant i Nicola, ei merch hynaf.

Fel y gallwch ddychmygu, mae nain yn falch iawn ohonynt.

**Penblwydd priodas**

Llongyfarchiadau i Dylan a Sharon Hughes, 54 Bro Emrys, ar achlysur eu Priodas Arian. Maent wedi mynd dramor i Groatia i ddathlu.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Mehefin 18: Oedfa.
Mehefin 25: Y Gweinidog.
Gorffennaf 2: Parchg. Cledwyn Williams.
Gorffennaf 9: Y Gweinidog.
Gorffennaf 16: Oedfa.

Croeso cynnes i bawb.

*Dyfodol Gweinidogaeth yr Eglwys*
Gyda'n Gweinidog, Y Parchedig John Pritchard, wedi cyhoeddi y bydd yn ymddeol ar ddiwedd Awst, mae dyfodol gweinidogaeth Eglwys Bethlehem yn ansicr ar hyn o bryd. Ers Ionawr 2015 cawsom y fraint o fod yn aelod o Ofalaeth Fro'r Llechen Las, yn un o saith eglwys dan weinidogaeth llawn-amser Y Parchedig John Pritchard. Bellach, yn dilyn penderfyniad unfrydol yr eglwysi mewn cyfarfod yng nghapel Carmel Llanllechid ddechrau mis Mai, bydd yr Ofalaeth yn dod i ben ar ymddeoliad y Gweinidog.
Rydym ni, aelodau Bethlehem, yn ddiolchgar iawn i'r Parchedig John Pritchard am ei weinidogaeth ffyddlon a gwerthfawr dros yr wyth mlynedd a hanner diwethaf, ac yn dymuno ymddeoliad hapus iawn iddo o fis Medi ymlaen. Ond dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf bydd raid i ni, a phob eglwys yn unigol, ystyried pa fath o weinidogaeth fydd yn bosibl i'n sefyllfa ar gyfer y dyfodol.

*Clwb Coffi Talybont*
Mae'r Clwb Coffi yn mynd ymlaen o nerth i nerth ers iddo gychwyn ym mis Mawrth y llynedd. Ac eithrio gwyliau'r Haf a gwyliau'r banc, bu'n cyfarfod bob yn ail fore Llun, gyda chriw da yn dod at ei gilydd i fwynhau paned a sgwrs, weithiau hwyl wrth ganu i gyfeiliant gitâr, ac ambell un lwcus yn ennill gwobr raffl.
Er bod aelodau Capel Bethlehem yn falch o groesawu'r Clwb i'r festri bob bythefnos, dylid pwysleisio nad clwb y Capel yw hwn, ond yn hytrach Clwb i drigolion cylchoedd Talybont a Llandygai. Mae croeso i ragor ohonoch i ddod atom, ac mae 'na ddigonedd o le yn y festri ar eich cyfer!
Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar fore Llun, 26 Mehefin a 10 Gorffennaf rhwng 10.30 a12.00. Galwch i mewn! Byddwch yn siŵr o gael croeso cynnes!

*Te Mefus Blynyddol*
Cynhelir ein Te Mefus eleni ar nos Fawrth, 4 Gorffennaf, am 7.00. Mynediad yn £2.00. Elw at y Capel.
Croeso cynnes i bawb fel arfer.

*Ymweliad Disgynyddion Edward Stephen, Tanymarian*
Yn ystod mis Mai derbyniodd Mrs. Jean Hughes, trysorydd yr eglwys, gerdyn oddi wrth dwy chwaer o Watford, Swydd Herts, yn diolch iddi am ganiatáu iddynt fynd i mewn i'r capel a'r festri ym mis Ebrill. Roeddynt eisiau gweld y lluniau olew mawr sydd ar furiau'r festri, o'u hen, hen daid, sef y Parchedig Edward Stephen, Tanymarian. Cawsant eu plesio'n fawr, a hefyd yn falch fod eu hen, hen daid wedi pregethu mewn capel mor hyfryd.


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.


Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

### Cystadleuaeth UKMT

Llongyfarchiadau i'n disgyblion ym mlynyddoedd 7 ac 8 am eu llwyddiant yn yr UKMT Junior Maths Challenge - cystadleuaeth flynyddol sy'n cael ei chynnal ar draws y DU! Y rhai a ddaeth i'r brig oedd Elliw a Gruff (Gwobr Aur), Ethan a Caio (Gwobr Arian), a Gwenno, Mason, Harri, Travis, Alena a Xander (Gwobr Efydd). Rydym yn falch iawn o'u llwyddiant.





### Disgyblion yn Anelu'n Uchel

Trefnodd Glenda Parry daith STEM ar gyfer sawl disgybl blwyddyn 10 yn ddiweddar. Ymwelodd y disgyblion â Gorsaf Llu Awyr Y Fali, yn westeion i gwmnïau Babcock International a British Aerospace. Dangosodd dau o brentisiaid peirianneg Llu Awyr Babcock sut roeddynt yn cynnal a thrin awyrennau cyfarwydd y Llu Awyr gan egluro'r wyddoniaeth tu ôl i'r egwyddorion hedfan.

Ar ôl gadael yr awyrendy ymwelodd y disgyblion â'r ystafell briffio gan weld y peilotiaid yn derbyn gwybodaeth hanfodol i baratoi am eu "sortie" cyn eu gwylio yn gadael y ddaear ac esgyn i'r cymylau.

Roedd pawb wedi mwynhau'r ymweliad addysgol yn fawr iawn.

### Un Nos Ola Leuad - Rhaglen Radio

Ym mis Ebrill, cafodd dau o ddisgyblion dawnus blwyddyn 7 y cyfle i deithio i Gaerdydd i fod yn rhan o gyfle arbennig. Treuliodd Gruffudd Llwyd Beech a Harri Bale ddeuddydd ym mhencadlys y BBC yn recordio lleisiau'r cymeriadau adnabyddus Moi a Huw ar gyfer rhaglen radio a ddarlledwyd ddechrau mis Mehefin.



### Ras am Fywyd

Fe gymerodd 28 o ddisgyblion a 4 o staff yr ysgol ran yn y Ras am Fywyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Digwyddiad elusennol i godi arian ar gyfer ymchwil cancr ydyw. Ras 5km ar hyd y Foryd a phawb wedi gorffen efo gwên. Digwyddiad i gefnogi'r dioddefwyr, edmygu'r goroeswyr a dathlu gobaith. Fe gasglwyd bron i £2,500 ar gyfer ymchwil cancr. Anhygoel! Diolch o galon i Mabon Scaffolding ac i Hot Tubs North Wales am noddi y crysau-T pinc.


STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



# Chwip o Garnifal ym Methesda



(Llun M Andrew Roberts)

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth allan i'r carnifal, gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau!

Roedd hi'n 12 mis prysur i'r Pwyllgor yn trefnu'r diwrnod mawr a hefyd y gweithgareddau codi arian. Hoffem ddiolch i gyd am roi mor hael yn ystod y flwyddyn a chefnogi ein digwyddiadau.

Diolch i Welsh Slate am fod yn brif noddwr i'r Carnifal, ac i'r holl fusnesau bach lleol ddaru noddi'r digwyddiad hefyd.

Roedd 'na ddigon i wneud ar y cae yn ystod y diwrnod - cystadleuaeth gwisg ffansi i bob oedran, ac arddangosiadau gan y majorettes, clwb gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn, Clwb Shukokai a'r bwellwyr. Roedd stondinwyr yn gwerthu crefftau a digon o ddewis stondinau bwyd yno hefyd. Diolch i chi gyd am fod yn rhan o Garnifal Bethesda 2023.

Diolch arbennig i Efa Rhodd, Robin Glyn, Efa Mair ac Elis Emlyn am fod yn deulu brenhinol gwerth chweil. Roeddent i gyd yn edrych yn urddasol iawn yn eu gwisgoedd hardd (diolch i Gofod Gwneud/Gofod Gwnïo Partneriaeth Ogwen am ddylunio a gwneud y 'capes').

**Donna Watts**

**Diolch i Nick Pipe am rai o'r lluniau.**








Fish &
Chips


PIZZA
Pysgod a
Sglodion
Fish &
Chips
STREIC Y PENRHYN
1900 - 1903













# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**EGLWYS ANNIBYNNOL BETHLEHEM TALYBONT**

## TE MEFUS

**Yn Festri Bethlehem**

Nos Fawrth, 4 Gorffennaf
am 7.00 yh
Mynediad : £2.00
Elw at y Capel

CANOLFAN CEFNFAES

## Bore Coffi
## Eglwys Crist Glanogwen

**Sadwrn,17 Mehefin 10.00 – 12.00**
**Mynediad: £1.00**

CANOLFAN CEFNFAES

## Bore Coffi
## Eisteddfod Dyffryn Ogwen

**Sadwrn, 8 Gorffennaf**
**10.00 – 12.00**
**Mynediad: £1.00**

**CANOLFAN CEFNFAES**

## Gyrfa Chwist

**Mehefin 27,**
**Gorffennaf 11 a 25**

**am 7 o'r gloch.**

**Croeso i bawb**

CANOLFAN CEFNFAES

## Bore Coffi
## Cronfa Goffa Tracy Smith

**Sadwrn, 24 Mehefin 10.00 – 12.00**
**Mynediad: £1.00**

## Ffair Ffeirio Dillad Plaid Cymru

**2- 4 o'r gloch**
**1af o Orffenaf**
**Neuadd Goffa Mynydd Llandygai**

## DYDDIADUR BOREAU COFFI

**2023**
**17 Mehefin** – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
**24 Mehefin** – Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracy Smith.
**08 Gorffennaf** – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
**16 Medi** – Cefnfaes – Plaid Cymru Dyffryn Ogwen
**23 Medi** – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen
**14 Hydref** – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

**Pwysig**

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

## Cofeb Rhiwlas

Yn rhifyn Rhagfyr o Llais Ogwan 'roedd llun o lechen Chwarel Penrhyn wedi ei cherfio yn enwi a chofio am hogia ardal Rhiwlas gollwyd yn y ddwy ryfel byd; ag i ni gynnal gwasanaeth Cofio yn y neuadd am y tro cyntaf i mi fod yn cofio.

Erbyn hyn mae Carl Walker a Dylan Griffiths, gyda help Gareth Williams, wedi gosod y lechen mewn gwaith brics tu allan i'r Neuadd, fel oeddwn i yn dymuno a bod gyno ni gofeb bellach yn y pentref.

Mae'n niolch i yn fawr i'r hogia am eu gwaith – i Cwmni JLR Bangor, am gerfio'r llechen, i'r Pwyllgor Neuadd am ganiatau lleoliad; ag i bawb gyfrannodd i mi er cof am Margaret mis Awst dweutha



# Natur o'n Cwmpas

## Y Wiwer Coch – cyfle newydd mewn hen gynefin



Bu amser pan nad oedd angen ychwanegu'r ansoddair 'coch' pan gyfeirid at y wiwer. Roedd hynny cyn i'r wiwer lwyd ymledu i Gymru. O Ogledd America y daeth y gwiwerod llwyd yn yr 1820au pan gawsant eu cyflwyno i diroedd stadau yn Lloegr. O'r 1870au ymlaen, cawsant eu rhyddhau, a buan iawn yr aethant ar led. Er i niferoedd y gwiwerod llwyd gynyddu'n arw yn Lloegr o'r 1920au ymlaen, ni ddaethant i Eryri tan ddechrau'r 1950au. Y canlyniad oedd i'r wiwer goch gael ei disodli mewn nifer fawr o ardaloedd gan gynnwys Dyffryn Ogwen.

Yn naturiol, mewn ardal goediog fel ein bro ni, roedd gwiwerod coch yn weddol gyffredin hyd at ddechrau'r 1960au, yn enwedig yng nghoedydd glannau Afon Ogwen gan ei fod yn gynefin sylweddol a di-dor o Dy'n y Maes i Aberogwen. Fel y nododd Cynan mewn cerdd i ddyffryn arall –

Fe elai'r wiwer gynt  
O bren i bren drwy'r dyffryn  
Yn gyflym fel y gwynt.

Wrth grwydro ym Mharc Meurig, Parc Moch a'r glannau coediog rhwng Pont Ogwen a Phont Ceunant, byddech ar dro yn gweld un yn cripian ar wib i fyny boncyff neu'n neidio'n ddeheuig o gangen i gangen ac yn gwneud campau rhyfeddol, fel y disgrifiodd Alan Llwyd hi mewn englyn:

Rhyw bwten acrobatig, – rhy dro pert  
Ar drapîs cuddiedig;  
Dart ysgafndroed y goedwig,  
Chwaer y mellt yn chwarae mig!

Prif fwyd y wiwer ydi cnau a hadau, ac mae hi'n arbennig o hoff o hadau'r binwydden. Bydd hefyd yn bwyta ffrwythau, egin coed, rhisgl, cen y cerrig a ffyngoedd. Ar dro, bydd yn bwyta wyau adar. Dydi'r wiwer ddim yn gaeafgysgu, ond dydi hi ddim hanner mor brysur dros fisoedd y gaeaf. Bydd yn storio hadau a chnau yn yr hydref fel bod ganddi ddigon o gynhaliaeth drwy'r misoedd llwm, a hynny drwy eu rhoi mewn twll mewn coeden neu eu claddu yn y ddaear.

Nyth ydi cartref y wiwer ac mae wedi ei wneud o frigau, dail, rhisgl a gwair, a hynny rhwng canghennau neu mewn twll mewn coeden. Mae nythod gwiwerod yn amrywio o ran maint a ffurf, ond ran amlaf mae eu diamedr tua 20cm (tua 8 modfedd).

Daeth cyfle eto i gael cip ar wiwer goch yma yn Nyffryn Ogwen. Yn 2016, cyflwynwyd wyth gwiwer coch i goed Braichmelyn – rhai ohonynt o Sŵ Fynydd Bae Colwyn. Mae coed conifferaidd Pen Braich o fewn terfyn Parc Cenedlaethol Eryri ac yn cynnig cynefin addas a gwarchodaeth iddynt. Yn ôl adroddiadau'r awdurdodau sy'n gyfrifol am gadw golwg ar eu datblygiad, maent bellach yn ffynnu yn y rhan hon o'n hardal. Rhowch wybod os ydych chi wedi gweld un.

Wyddech chi ...?

- mai'r dylluan frech sy'n hwtian. Ei galwad hi ydi 'hŵ-hŵ-hŵ' ac yna, wedi bwlch, 'ŵ-ŵ-ŵ-ŵ'. Dyna sut y cafodd hi'r enw 'Gwdi-hŵ'. Dydi'r dylluan wen ddim yn hwtian. Sgrech hir, wyllt ydi ei galwad hi.
- fod cynffonnau ŵyn bach, sef y blodau hir a main, i'w gweld ar gollen, gwernen, aethnen, poplysen, bedwen lwyd a bedwen arian; a bod gwyddau bach, sef y blodau byr a thew, i'w gweld ar chwe math o helygen.
- fod cnau castanwydden y meirch, sef concars (cobls), yn wenwynig, ac mai cnau castanwydden bêr ydi'r rhai y gellir eu rhostio i'w bwyta.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG* *ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*


**CAFFI COED Y BRENIN**
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

**Bwyd cartref blasus**
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
**Cinio arbennig bob dydd Iau**
**Bwyd i'w gario allan**
**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)**
Prisiau rhesymol
**ORIAU AGOR**
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

**MODURDY FFRYDLAS**
Profion M.O.T.
**PERCHNOGION**
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
**• PROFION M.O.T. •**
**GWASANAETH • ATGYWEIRIO**
**• TEIARS A BATRIS •**
**GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN**
**Ffôn: 600 723**
**E-bost: ffrydlas@btconnect.com**

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar
**@Llais_Ogwan**

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

RHAN 9

**4 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Teulu **Joseph Hughes,** gwehydd, oedd yn byw yn rhif 4 Ogwen Terrace yng nghyfrifiad 1871. Yng nghyfrifiad 1851, roedd y teulu yn byw yn rhif 5 High Street, Bethesda. Mae Joseph yn cofnodi mai chwarelwr ydoedd. Roedd Joseph yn enedigol o Nelson, Staffordshire, a ganwyd ef yn 1817. Roedd Catherine, ei wraig, wedi ei geni yn Llangefni yn y flwyddyn 1813. Nodir bod ganddynt bump o blant, sef John 14, Mary 13, Jane 7, Catherine 7, a Richard yn 3 oed. Ganwyd y plant i gyd ym Methesda.

Erbyn cyfrifiad 1871 roedd y teulu yn byw yn rhif 4 Ogwen Terrace, gyda dau o'r plant, sef Jane Hughes a Thomas Joseph Hughes. Nid oes sôn am weddill y plant. Erbyn hyn roedd Joseph yn wehydd ac yn cyflogi un dyn, sef bachgen o Lŷn o'r enw William Ellis, ac roedd yn byw yn y tŷ gyda'r teulu. Roedd cyfnither iddynt yn byw gyda hwy hefyd, sef Catherine Williams, yn gweithio fel morwyn i'r teulu, hithau wedi ei geni ym Methesda.

Mae Thomas Joseph Hughes yn 21 oed ac yn ei ddisgrifio ei hun fel fferyllydd. Roedd Jane, ei chwaer, yn 27 oed ac yn sengl, ond nid oedd wedi cofnodi pa fath o waith yr oedd hi'n ei wneud. Mae amryw o hysbysebion yn ymddangos yn y papurau newyddion am y cyfnod yma yn cyfeirio at Thomas Joseph Hughes, Drugist 4, Ogwen Terrace, felly mae'n bosib fod Thomas a'i dad ill dau yn rhannu y siop.

Erbyn cyfrifiad 1881, mae'r teulu yn dal i fyw yn rhif 4, Ogwen Terrace, ond mae Joseph yn nodi mai yn Staffordshire y ganwyd ef, yn hytrach na Merthyr Tudful, fel y cofnodwyd yng nghyfrifiad 1851, ac mae Catherine yn dweud mai Llanllechid oedd ei man geni hi ac nid Llangefni. Roedd eu merch (Jane) yn ei galw ei hun yn Catherine ac yn cadw'r siop fel bywoliaeth, gyda Thomas Joseph yn dal i fod yn fferyllydd, ac mae Catherine Williams, yn ei disgrifio ei hun fel morwyn ac nid cyfnither.

Mae adroddiad yn *The North Wales Chronicle*, Mawrth 31, 1888 yn cyhoeddi *'APPOINTMENT OF OVERSEERS'. 'Appointment of Overseers for the Parish of Llanllechid.- At a vestry held at Llanllechid, the following persons were nominated as overseers for the ensuing year:- Messrs Hugh Thomas, Green Cottage, Llanllechid;* ***Thomas J. Hughes,*** *Ogwen Terrace, Bethesda; Humphrey Ellis, Tai'r meibion; Griffith Roberts, Ogwen-terrace. At the Bangor Petty Sessions, on Tuesday, the magistrates appointed the two First-named.'*

Yn 1890 sefydlwyd cwmni o'r enw The North Wales Music Company Limited. Roedd y cwmni gyda chyfalaf o 2000p i brynu busnes cerddorol G. Griffiths and Co. Bangor a Chaernarfon. Y cyfarwyddwyr oedd Dr Roland Rogers, Bangor; Mri. W. J. Parry, Coetmor Hall, Bethesda; W. J. Williams, Minydon, Caernarfon; **T. J. Hughes,** 4, Ogwen Terrace, Bethesda; R. Wynne Williams, Queen Square, Dolgellau. Ysgrifennydd Mr James Smith, Tŷ Newydd, Bangor. Felly mae'n ymddangos bod Thomas Joseph Hughes yn ddyn â diddordeb ym mywyd cymunedol Bethesda a hefyd mewn busnesau ehangach na dim ond bod yn fferyllydd.

Mae Joseph Hughes wedi marw erbyn cyfrifiad 1891, ac mae Catherine, ei wraig, yn cofnodi mai gweddw ydoedd gydag incwm preifat, a bod ei merch hithau gydag incwm preifat. Roedd Thomas yn dal i fod yn fferyllydd, ac roedd wyres yn byw gyda hwy, sef Elizabeth Hughes Bailey, 12 oed, wedi ei geni yn Leeds ac yn mynychu'r ysgol.

Bu farw Catherine Hughes yn 87 mlwydd oed, a chawn yr hysbysiad yma yn *Y Genedl Gymreig*, 19 Medi, 1899, 'Hughes – Medi 17, yn 87 mlwydd oed, Mrs Catherine Hughes, 4 Ogwen Terrace, Bethesda. Bydd yr angladd yn un cyhoeddus yn ôl y drefn newydd, am ddau o'r gloch ddydd Mercher nesaf.'

Rai misoedd yn ddiweddarach cawn benillion coffa i Mrs Catherine Hughes yn *Gwalia*, Gorffennaf 10, 1900.

MARWOLAETH Mrs Hughes, Ogwen-terrace, Bethesda, yn bedwar ugain ac wyth mlwydd oed.

1. Byd y gruddfan gawn ni yma,
   Ocheneidiau yn ddi-ball,
   Fel yn gwibio draws eu gilydd,
   Brysia'n naill o ffordd y llall;
   Pan mae adsain un yn darfod,-
   Hiraeth fel yn sychu'i rudd,
   Ow! Un arall yn y fynwes,
   'N hawlio ei gollyngdod sydd.

2. Mam a thad fan hyn sy'n wylo
   A'u mynwesau yn ddihedd.
   Wedi gorfod, er pob ymdrech,
   Wagio cryd i lanw bedd.
   Ar y llecyn glas fan acw
   Gwelaf blant a gruddion llaith,
   Wedi hebrwng mam oedrannus
   O boenau dydd i ben y daith.

3. Pan y derbyn y gorllewin
   'R heulwen fawr i'w serchus gôl,
   Daw rhyw deimlad o unigrwydd
   I fyfyrdod ar ei hôl, -
   Gwisgir gwrid ar rudd y cwmwl,
   Enfyn nef ei dagrau lawr,
   Cau eu hemrynt wnaiff y blodau
   Mewn disgwyliad am y wawr.

4. A meddienyd y teimladau
   Hoffaf, dwysaf, a rhyw fraw,
   On' bai am y gobaith hwnnw
   'R egyr dorau'r dwyrain draw:
   Felly am y rhai sy'n huno
   Yn mhriddellau oer y glyn,
   Chwi, alarwyr, ceisiwch gofio,
   Egyr dorau'r beddau hyn.

5. Mrs Hughes sydd wedi hedeg
   Goruwch i'r drwg yr ochr draw;
   *Ni chaf deimlo'i bysedd mwynion
   Mwyach yn anwylio'm llaw.
   Annibyniaeth a gwroldeb
   Gydsiaradent yn ei gwedd
   Hunanfeddiant nis gadawodd
   Pan yn llithro lawr i'r bedd.

6. Os dallineb a'i trallodai
   Am flynyddau maith cyn hyn;
   Taenwyd gwawl y nef belydrau
   Daeth goleuni ar y glyn;
   Wedi bod yn ymbalfalu
   Mewn tywyllwch yn y byd,
   Yng nghynteddau'r nefoedd oleu,
   Gwel'd y perlau wnaeth i gyd.
   Fel yr haul pan yn machludo'n
   Gwisgo gwrid ar ben y daith,

7. Gedy fyrdd o sêr i fritho
   A sirioli'r asur laith:
   Boed i'r rhai adawodd hithau
   I drugaredd gwyntoedd croes
   Gael eu hadwaen gan gymdeithas
   Fel siriol sêr mewn rhin a moes.
   A chan gofio caiff pob seren
   Fyned i gyffelyb daith,
   Cyn ceir gwel'd yr heulwen oleu
   Yn pelydru yr ail waith.

8. Mwyn gân o fawl mewn gwyn fyd, - a lona
   Ddylanwad ei gweryd;
   Lle'n gorphwys o bwys y byd
   Mae rŵan, am ryw ennyd.

**Arferai wneud hyn pan ymwelwn â hi.*

Bethesda.

J. Ll.

Yng nghyfrifiad 1901, Thomas Joseph sydd yn cael ei nodi fel pen teulu, gyda Catherine, ei chwaer, yn dal i fyw yn 4 Ogwen Terrace gydag ef, ond mae Lizzie Hughes Bailey ac Annie Bailey yn byw gyda Thomas a'i chwaer yn awr. Mae Annie yn rhoi ei man geni fel Penmaenmawr, yn y flwyddyn 1886. Roedd William Jones, o Sir Fôn, yn byw yno hefyd ac yn fferyllydd cynorthwyol. Roedd ef yn 40 oed. Yn ogystal â William, roedd yna forwyn o'r enw Jane Roberts, yn 17 oed ac yn enedigol o Lanllechid.

Erbyn cyfrifiad 1911 mae Thomas a'i chwaer yn dal yn 4 Ogwen Terrace, ond mae nith iddynt o'r enw Winifred Hughes yn byw gyda hwy, ac roedd yn dweud ei bod wedi ei geni yn 'Pennsylvania, USA'. Roedd William Jones yn dal i fod yno hefyd ac yn gweithio fel fferyllydd cynorthwyol. Felly, roedd y teulu yma wedi byw yn rhif 4 Ogwen Terrace am dros 40 o flynyddoedd. (i'w barhau) Y mis nesaf rhif 5 Rhes Ogwen.

# Gair neu ddau
John Pritchard

## Ysbryd hael

Diwrnod cyntaf Eisteddfod yr Urdd yw hi wrth i mi sgwennu'r erthygl hon, a hyd yma dwyf fi ddim wedi gweld na chlywed dim o'r cystadlu yn Llanymddyfri. Mae'n addo tywydd braf, ac mae hynny wastad yn help er sicrhau wythnos lwyddiannus. O hyn hyd bnawn Sadwrn, bydd cannoedd os nad miloedd o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn llu o gystadlaethau. Bydd amryw ohonynt yn hen lawiau arni ac eraill yn newydd i'r cyfan. Bydd rhai yn eu helfen wrth wibio o'r naill gystadleuaeth i'r llall ac eraill yn crynu yn eu sgidiau wrth fentro i'r llwyfan am y tro cyntaf erioed fel aelod o gôr neu barti. Gobeithio bydd hi'n Steddfod i'w chofio i rai o blant ac ieuenctid Dyffryn Ogwen.

Mae pob steddfod yn brawf ar ddoniau'r cystadleuwyr. Ond mae Steddfod yr Urdd yn brawf ar rieni hefyd. Dyna fy mhrofiad i beth bynnag. A mwy na hynny hyd yn oed, bu Steddfod yr Urdd am flynyddoedd yn brawf arnaf fel Cristion. Nid prawf ar fy ffydd wrth reswm, ond prawf ar fy nghymeriad Cristnogol o ran arddangos rhinweddau fel gwyleidd-dra a haelfrydigrwydd ac osgoi beiau fel balchder a chenfigen.

Mae'n amlwg nad yw balchder a hunan ymffrost yn gweddu i Gristion. Onid un o'r pethau mwyaf sylfaenol a ddywed y Ffydd Gristnogol wrthym yw nad oes gan neb ohonom le i ymffrostio gerbron Duw? Ac onid yw'r edifeirwch y mae'r Efengyl yn ei hawlio yn esgor ar ysbryd gwylaidd yn y Cristion. Rhaid gwylio rhag ymffrost a phob tuedd i'n cyfrif ein hunain yn well nag eraill. Gwn mor rhwydd yw bod felly, a gweddïaf yn aml am y gras i beidio â bod mor hunangyfiawn ac ymffrostgar.

Ond nid balchder fu'r perygl mwyaf i mi ar faes Steddfod yr Urdd. Ychydig o gyfle a gawsom i ymffrostio gan mor anaml y bu'r hogia'n cystadlu ym Mhrifwyl yr Urdd! Os rhywbeth, bu cenfigen yn fwy o demtasiwn. O un steddfod i'r llall, byddem yn cyfarfod â ffrindiau a fyddai'n rhestru'r cystadlaethau yr oedd eu plant yn rhan ohonynt, a ninnau bron yn ddieithriad yn egluro nad oedd ein hepil ni wedi bod yn agos i'r Steddfod Gylch hyd yn oed. A bod yn onest, dwi ddim yn siŵr oeddwn i'n gweld angen i gydnabod hynny! Ac er cywilydd mawr i mi, dwi ddim yn siŵr chwaith a oedd gen i bob amser yr amynedd i wrando ar gyfeillion yn rhestru llwyddiannau eu plant a'u hysgolion!

Ond os nad oeddwn i bob tro'n dod trwy'r prawf yn dda, nid felly Falmai. Maddeuwch i mi'r gair personol y tro hwn, ond mae Steddfod yr Urdd bob amser yn dwyn i'm cof ei hysbryd hael a'i dawn brydferth i gydlawenhau ag eraill. Nid oedd ynddi arlliw o genfigen wrth glywed am lwyddiannau pobl eraill. Felly roedd hi wrth natur, ond felly roedd hi hefyd oherwydd gras Duw yn ei bywyd. Ac yn sicr, mae'r gallu i gydlawenhau ag eraill, fel y gallu hefyd i gydymdeimlo â hwy, yn rhinweddau Cristnogol a harddodd ei bywyd hi a bywydau llu o Gristnogion eraill ar hyd yr oesoedd.

# Beca'n Is-Gadeirydd y Cyngor Sir

Yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Gwynedd ym mis Mai, etholwyd Y Cynghorydd Richard Medwyn Hughes (Canol Bangor) yn Gadeirydd y Cyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Beca Roberts (Tregarth a Mynydd Llandygai) yn Is-Gadeirydd.

Yn Gynghorydd Gwynedd ers 2022, mae Beca wedi bod yn aelod o Bwyllgor Craffu Cymunedau'r Cyngor ac yn eistedd fel Aelod o Fwrdd Newid Hinsawdd a Natur yr Awdurdod.

Mae'n debyg mai Beca ydi un o'r ieuengaf, os nad yr ifancaf i gael ei hethol i rôl Is-Gadeirydd y Cyngor, ac mae'n ddiolchgar am gefnogaeth ei chyd-aelodau.

"Mae'n anrhydedd i mi gael fy ethol yn Is-Gadeirydd Cyngor Gwynedd eleni," meddai'r Cynghorydd Beca Roberts.

"Mae'n hyfryd teimlo bod Cynghorwyr eraill yn ymddiried ynof i ac yn fy nghefnogi. Mae hi hefyd yn arwydd clir bod Cyngor Gwynedd yn edrych i foderneiddio a dangos bod lleisiau ifanc yn haeddu cael eu clywed.

"Rwy'n gobeithio defnyddio fy amser fel yr is-gadeirydd yn ddoeth drwy gefnogi mentrau amgylcheddol a chymunedol, yn ogystal â cheisio ysbrydoli pobl ifanc eraill i ymwneud â gwleidyddiaeth ar lefel leol."

Llongyfarchiadau mawr i Beca a phob hwyl yn y rôl.



Y Cynghorydd Beca Roberts, Is-gadeirydd newydd Cyngor Gwynedd

## Ydych chi'n eu cofio nhw?

**Mae'r llun atodol wedi ei anfon i mewn gan Mrs. Menai Jones, Erw Faen, Tregarth. Mae hi wedi cynnwys rhai enwau ond yn gofyn tybed a fedr rhai o ddarllenwyr y Llais roi rhagor o wybodaeth?**




Dilynwch Llais Ogwan ar **www.llaisogwan.com**

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



### Mynd am y Brifwyl ar ôl helyntion y rhagbrofion



Owain Arwel, Arweinydd

Ynghanol mis Mai cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y côr yn Ysgol Llanllechid ar ôl ymarfer byr. Yn ei anerchiad i'r aelodau nododd yr arweinydd, O Arwel Davies, ei fod yn falch bod trefnyddion yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ail ystyried y drefn oedd i gael ei mabwysiadu eleni, sef un oedd yn golygu cynnal rhagbrofion a chyfyngu ar nifer y corau fyddai'n cael ymddangos ar lwyfan y brifwyl.

Bu cryn wrthwynebiad i'r drefn honno gan bob côr, gyda'r mwyafrif yn dweud na fyddent yn gallu mynychu'r Eisteddfod dan y fath amodau oherwydd y gost o dalu pris cystadlu a llogi bysiau ynghyd â'r holl ymarferion fyddai'n mynd yn ofer. Ar ôl i'r corau ddadlau eu hachos yn y wasg ac ar y cyfryngau torfol bu raid i'r trefnyddion ildio a rhoi lle i'r corau yn y diwedd. Mae hynny'n golygu y bydd Côr y Penrhyn a chorau eraill yn mynd i'r brifwyl ym Moduan, Pwllheli i gystadlu ym mis Awst.

Wedi egluro'r sefyllfa i'r aelodau, dywedodd yr arweinydd hefyd bod angen i'r côr edrych am wyliau eraill i gystadlu ynddynt yn ogystal â'r brifwyl ac eisteddfodau lleol.

**Cynrychiolwyr lleisiau**
Tenor 1: *Rheinallt Davies, John Baston*
Tenor 2: *Emyr Roberts, Mike Evans*
Bas 1: *Caleb Rhys, Islwyn Owen*
Bas 2: *Elfyn Bullock, Brynmor Jones*

**Enw swyddogol**
Pwysleisiwyd yr angen i nodi mai enw swyddogol y côr ar bob cyhoeddiad a hysbyseb yw **Côr y Penrhyn (Bethesda)** i arbed unrhyw ddryswch gyda lleoedd eraill sy'n cynnwys yr enw – 'Penrhyn'.

### Gwyn yn rhoi'r gorau i swydd y cofrestrydd

Un sy' wedi rhoi gwasanaeth hir a gofalus i swydd cofrestrydd y côr ydy Gwyn Burgess o'r ail denoriaid. Mae Gwyn wedi gwneud y gwaith manwl hwn yn gydwybodol ac wedi cadw cyfrif o bresenoldeb yr aelodau mewn ymarferion a chyngherddau. Dyma fath o waith sy'n cael ei wneud yn dawel heb ffws na ffwdan ond sydd yn bwysig er mwyn gweld pwy sy'n colli perfformiadau oherwydd gwaith, gwaeledd neu unrhyw reswm arall. Diolch yn fawr Gwyn!



Gwyn Burgess, Cofrestrydd y côr

**Adroddiad y Cadeirydd**

Yn ei anerchiad i'r côr nododd Wyn Roberts bod y côr, a chymdeithas yn gyffredinol o ran hynny, yn dal i ddioddef sgil-effeithiau Cofid 19. Meddai Wyn, "Mae'n deg dweud mai prin oedd nifer y cyngherddau yn ein calendr ar y pryd. Roedd cyngherddau Sant Ioan ar fin ail gychwyn ond wedi eu cwtogi o ran niferoedd ond doedd dim sôn am unrhyw weithgaredd yn Henllys – rhain yn gyngherddau bara a menyn i ni mewn blwyddyn arferol."

Aeth y cadeirydd ymlaen i ddweud, "Dechreuodd pethau wella pan aethom i Borthdinllaen i ffilmio 'Take a Hike' i'r BBC." Soniodd hefyd am gyngerdd da yng ngorsaf trenau Caernarfon i gynhadledd ryngwladol yr Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol (International Atomic Energy Agency).

Wrth drafod prysurdeb a llwyddiannau'r côr roedd Wyn yn falch o gael sôn am noson gofiadwy yng nghwmni Nigel Owens, y dyfarnwr rygbi enwog, pryd y llwyddwyd i roi hwb gwerthfawr i gyllid y côr. Hefyd, cafwyd cyngerdd yn Eglwys Glan Ogwen – y tro cyntaf i nifer ohonom ganu yno, yn sicr y tro cyntaf i'r côr fod yno ers blynyddoedd.

Ym mis Tachwedd cafwyd dau drip arbennig, un i Gaerdydd a'r llall i Aberteifi. Dyma'r tro cyntaf i rai o'r aelodau newydd ganu ar y maes cenedlaethol ar achlysur gêm Cymru v Ariannin. Yna, ar y penwythnos canlynol bu'r côr yn perfformio yn Neuadd Rhosygilwen efo Côr Rygbi Aberteifi – noson hwyliog a chofiadwy ar sawl cyfri gyda dynwaredwr Elvis yn un o'r artistiaid gwadd.

Mae'n siŵr mai uchafbwynt y flwyddyn oedd y cyngerdd mawr yn Eglwys Gadeiriol Bangor yng nghwmni Côr y Brythoniaid, pryd y codwyd arian i Wcráin o dan ymbarél DEC. Pwysleisiodd Wyn mor aml y mae Côr y Penrhyn yn cynnal cyngherddau i gynorthwyo elusennau ac achosion da eraill.

Yn nechrau Ebrill trefnwyd i ni fynd draw i Huddersfield yng ngorllewin Swydd Caerefrog am gyngerdd hefo'r Marsh Ladies Choir o'r ardal honno yn cael ei ddilyn gan noson gymdeithasol yn y Thornhill Briggs Workingmen's Club. Fel y dywedodd Wyn, "Cawn ein cofio yno am sbel go-lew greda i oherwydd doniau hogia'r côr i ganu'n fyrfyfyr sawl darn oedd yn rhoi gwefr i fynychwyr y clwb!"

I gloi diolchodd Wyn i'r swyddogion ac i'r aelodau am eu gwaith a'u ffyddlondeb i'r côr yn ystod y flwyddyn. "ymlaen i weddill 2023 ac i mewn i 2024 yn hyderus," meddai.



Wyn Roberts, Llanfairfechan, Cadeirydd y Côr.

## Agor y Gist

Mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn cael eu hannog i ystyried gwneud cais am grantiau refeniw a chyfalaf fyddai'n cefnogi prosiectau i wella safon bywyd trigolion a chymunedau.

Mae Cronfa Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd yn cynnig grantiau o hyd at £10,000 i annog cymunedau i wireddu'r amcanion hyn drwy gymryd rôl fwy rhagweithiol yn eu bro.

Yn ogystal, mae Cronfa'r Degwm yn cynnig grantiau hyd at £3,000 i elusennau cofrestredig. Mae canran o'r Gronfa yn cael ei ddosbarthu i eisteddfodau lleol yng Ngwynedd, sef swm o £300, a dylid ymgeisio drwy e-bostio CistGwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Mae pecynnau ymgeisio ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/grantiaucistgwynedd neu ffoniwch 01286 679153.

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau ar gyfer y cronfeydd ydi 3 Gorffennaf 2023.

# Cymeriadau'r Côr

**Be ydy dy enw llawn?** William David Williams
**Oed?** 65 ifanc.
**Lle wyt ti'n byw?** Yn y Felinheli ers bron i 30 mlynedd.
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Gerlan, mab hynaf a challaf Owie a Mair a brawd Tom a Richard.
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Gweithgar, gonest, Cymro.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** 8 mis.
**Pa lais wyt ti?** Ail denor.
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Mae Tom fy mrawd yn aelod ers bron i 50 mlynedd ac wedi cael llawer o brofiadau a hwyl. Meddwl bod yr amser wedi dod i mi gael ychydig hefyd.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** O Gymru gan Rhys Jones. Cefais y pleser o'i chanu yn fy ymddangosiad cyntaf efo'r côr yn Stadiwm y Principality cyn gêm Cymru yn erbyn Yr Ariannin.
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Chris Rea, ers i mi ei weld yn Arena Wembley yn nechrau'r nawdegau.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Dwi'n hoff iawn o ganu pop Cymraeg a Saesneg ac yn mynychu gwyliau fel Sesiwn Fawr Dolgellau a'r Eisteddfod. Dwi'n mwynhau ystod eang o artistiaid o Candelas a Bwncath i Don Williams ac wrth gwrs, Chris Rea.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Y gig gyntaf i mi yn Stadiwm y Principality. Gwefr yn wir a braint cael bod yno efo'r côr.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi'n ysgrifennydd Gŵyl y Felinheli ers blynyddoedd (dewch draw i'n gweld rhwng 23 Mehefin a 1 Gorffennaf.) Dwi hefyd yn mwynhau turnio coed (ar *'lathe'*) yn y gweithdy. Mae gynnon ni gamperfan, felly dan ni'n mwynhau teithio ar wyliau ynddi.




BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS



J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com


# Difyrion Digidol

## Deian ap Rhisiart

Yn y golofn ddiwethaf, fe sgwennais am y diwrnod mawr hir-ddisgwyliedig yn adeiladu beic digidol yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Y cam naturiol wedyn oedd cyflwyno'r beic digidol cyntaf i gartref gofal lleol - dyma fy argraffiadau o'r diwrnod.

Yr oedd yn ddiwrnod o gyffro ac o fwrlwm yng nghartref gofal Hafan Cefni, Llangefni, pan ddaeth y cyfryngau i'r dre! Wrth dynnu fewn yn y maes parcio, gwelais fws mini Ysgol David Hughes wedi parcio, gyda Daron Harris a'i ddisgyblion yn aros i gario'r beic i mewn trwy'r drws. Yno hefyd oedd y cyflwynydd Gerallt Pennant a'i griw o raglen Prynhawn Da. Roedd criw Prynhawn Da wedi dilyn y daith o'r cychwyn gan ffilmio'r adeiladu a rwan, i gyflwyno'r beic yn swyddogol.

Yno hefyd yr oedd Simon Jones, fy nghydweithiwr a fu'n ganolog yn cynorthwyo'r disgyblion gyda'i arbenigedd yn adeiladu'r beic ac yn datblygu beiciau digidol newydd yn y gogledd. Cawsom ein croesawu i'r adeilad gan y rheolwraig, Brenda Hughes a oedd yn wen o glust i glust. Roeddem wedi ymweld â'r cartref o'r blaen gyda'r beic digidol yn ôl yn 2019 reit cyn i'r pandemig daro, ac yn sicr roedd hi'n falch i'n gweld eto. Roedd Brenda'n edrych ymlaen yn eiddgar at gael y beic yno'n barhaol ar ôl mwynhau'r ymweliad cyntaf.

Trwy'r drws wedyn, y daeth y gohebydd Sion Pennar o BBC Cymru gyda'i ddyn camera yn barod amdani i holi ac arsylwi holl ddigwyddiadau'r dydd. Aethom â'r beic i gornel ystafell fawr braf a'i osod yno, a dyna lle fydd cartref newydd y beic digidol a chyfle dyddiol i breswylwyr fynd am dro ar hyd llwybrau'r cof.

Yr oedd criw sylweddol o'r preswylwyr wedi ymgynnull yn y lolfa gymunedol i dystio'r diwrnod pwysig a chael tro ar y beic. Seiriol Edwards o Gyngor Môn oedd y nesaf i gamu trwy'r drws – Seiriol oedd yn gyfrifol am dynnu Cyngor Môn i'r prosiect, diolch i berswâd fy nghydweithiwr Lon Moseley, gan addo talu am yr offer i adeiladu'r beiciau a'u rhoi at ddefnydd cartrefi preswyl yr Ynys. Wedyn, daeth dau o fenter gymdeithasol North Wales Recycle IT trwy ddrysau Hafan Cefni. Y nhw sydd yn garedig wedi rhoi'r gliniaduron am ddim i reoli'r beiciau.


Roeddwn yn teimlo fy mod mewn gig fawreddog, wrth i'r preswylwyr aros i wylio sêr y cyfryngau yn perfformio. Ond nid y nhw oedd y perfformwyr y tro hwn, ond y preswylwyr eu hunain heb os! A dyna fu.

Yn eu tro, cafodd y preswylwyr gyfle i fynd ar y beic tra bod disgyblion Ysgol David Hughes yn cynorthwyo, ac yn magu ffrindiau newydd yn eu cwmni. Bu yna hel atgofion am blentyndod, digon o berlau, hwyl a difyrrwch, wrth i un bedlo ar hyd strydoedd tref Biwmares. Norma, 91 oed, fu'n cofio'r tirfeddiannwr Richard Bulkley yn taflu ceiniogau poeth 'hot coins' o'r balcon yn y Bulkley Hotel i blant tlawd fel Norma. Cofnod amhrisiadwy a phrin o hanes, diolch i'r beic am sbarduno'r atgofion. Cafodd sawl un gyfle i bedlo ar lwybrau'r cof a llifodd yr atgofion eto. Nesaf, daeth y darlledwr Aled Hughes a'i gynhyrchydd Tegwen o BBC Radio Cymru i ymuno yn yr hwyl. A chafwyd rhagor o hel atgofion plentyndod ar y beic wrth ymateb i holi cynnes Aled.

Diwrnod arbennig yn llawn prysurdeb. Diwrnod i'w gofio mewn sawl ffordd. Diolch i bawb am eu cyfraniadau! Heb os, sêr y diwrnod oedd y preswylwyr a phleser oedd clywed hanesion cymeriadau annwyl Hafan Cefni. Ac wrth i'r beic ennill ei blwyf yn Hafan Cefni, bydd oriau lawer o fwynhad, hapusrwydd ac ymarfer corff yn cael ei dreulio yn dychwelyd i'r gorffennol.

Os hoffech wybod rhagor am y beic digidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Safn mewn cegin (3)
3 Dos ! (3)
8 Teithio'r stryd fel ar gerbyd ar gledrau (7)
9 Cath neu gi i'w mwytho (5)
10 Anfon e-bost i archebu nwyddau o'r siop groser (5)
11 Fel 8 Ar Draws, ond heb gerbyd y tro hwn (7)
12 Anwybodus ac yn methu darllen (11)
16 Cartref merched crefyddol (7)
18 Digrif a doniol (5)
20 Ydi Donald Trump yn chwarae'r gêm yma tybed ? (5)
21 Ymrwymo i wella ar ddechrau blwyddyn (7)
22 I Fôn a chael braw rywsut (3)
23 Ymgasglu fel un (3)

## I LAWR

1 Rhoi pedol mewn tocyn taclus i bawb fod yn unfryd (6)
2 Canol argraffdy ? (5)
3 Fel 8 neu 11 Ar Draws yn ddiamcan (7)
4 Brysio am fod yn hwyr i Soar (5)
5 Ar S4C ceir aduniad mewn lle i aros (6)
6 Y Sais drwg neu'r Cymro da all groesi'r afon yng Ngheredigion (11)
7 21 Ar Draws ar lafar yn ein bro ni (4)
13 Darn bach o nef o flaen ardal y Lôn Goed aiff a chi i blaned (7)
14 Cyn dechrau ar wythnos waith arall (3,3)
15 Addurno stafell, ond nid efo'r 'Llais' na'r 'Daily Post' gobeithio (6)
16 Taflu, a cholli pedol (5)
17 Cyngres o wledydd sy'n ymrwymo i amddiffyn ei gilydd dan ormes (4)
19 Codi un ael yn gywir i gael golwg ar y targed (5)

## ATEBION CROESAIR MAI 2023

**AR DRAWS** 1 Cydoesi, 5 Llwythi, 8 Lelog, 9 Sgwrsio, 10 Modurdy, 11 Rondo, 12 Cystudd, 14 Ymolchi, 17 Mogfa, 19 Wedi Cau, 22 Echrydus, 23 Deian, 24 Iraidd, 25 Gwylnos

**I LAWR** 1 Cwlwm, 2 Dyledus, 3 Elgar, 4 Iestyn, 5 Llawdrwm, 6 Ymson, 7 I Goroni, 12 Camlesi, 13 Unawdydd, 15 Lecsiwn, 16 Pwysig, 18 Gyrfa, 20 Dodwy, 21 Un Nos

Dyma enwau'r rhai anfonodd atebion cywir y tro hwn: Gwenda Roberts, Rhosmeirch; John Ffrancon Griffith, Abergele; Gill King, Mynydd Llandygai; Judith Hughes, Llangoed; Doris Shaw, Gaynor Elis-Williams, Gwen Evans, Bethesda; Iona Williams, Llanddulas; Barbara Jones, Talybont; M. A. Jones, Llanllechid; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth, Medi Michael

Yn cipio'r wobr a'r clod y tro yma mae **Rosemary Williams**, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor, Gwynedd. Llongyfarchiadau calonnog i chi.

Atebion erbyn **7fed Gorffennaf 2023** fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD


**JOHN ROBERTS**



Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Clwb Ffermwyr Ifainc Dyffryn Ogwen

# Llwyddiant yn y Rali Flynyddol



Cari wedi gwisgo fel clown

Wedi cael ychydig o seibiant ar ôl ein rali flynyddol yn Llystyn Canol, Garndolbenmaen ar y 27ain o Fai, rydym yn cael edrych yn ôl ar yr holl wythnosau o ymarfer caled gan ein haelodau.

Wel am ddiwrnod llawn hwyl a llwyddiannus i ni fel clwb! "Syrcas" oedd thema'r rali eleni, felly fedrwch chi feddwl yr hwyl gawsom yn ystyried hyn. Yn ystod y dydd roedd ein haelodau yn brysur yn cystadlu mewn nifer o gystadlaethau, fel coginio, ail-greu pennod oddi ar y teledu, dangos sgiliau ar y sbot, gwisgo arweinydd, canu, gwaith coed, tynnu rhaff a llawer mwy.

Wrth i'r aelodau gystadlu yn ystod y dydd dyma rai o'r canlyniadau:

| | |
|---|---|
| Coginio - Betsan & Gwenno | 1af |
| Trin Gwlân - Beca Jackson | 1af |
| Canu Unigol - Cian Rhys | 2il |
| Gwisgo i Fyny- Meleri a Cadi | 2il |
| Colur SFX - Sallie & Glesni | 2il |
| Pasio'r bwced | 2il |
| Sialens sgiliau ar y sbot | 3ydd |
| Ail greu pennod neu sgets o raglen deledu neu ffilm: - | |
| Iwan, Eilir a Cian | 4ydd |
| Hysbysebu'r Rali | 4ydd |

Ar ddiwedd y dydd bu'r clwb yn llwyddiannus yn cipio Cwpan Huw ac Ellen Jones, Gwern am y clwb gyda'r mwyaf o farciau allan o'r 5 clwb lleiaf, a Tharian Brwdfrydedd UCA am y clwb buddugol yn ôl cyfartaledd aelodaeth. Da iawn i'r holl aelodau am eu gwaith caled yn ystod y dydd. Hefyd, enillodd Iwan Harper Gwpan Mei Bryn am fod y barnwr gwartheg mwyaf addawol, yn ogystal â chwpan aelod hŷn y flwyddyn - Da iawn chdi Iwan!

Wrth gloi, hoffem ddiolch o waelod calon i chi'r aelodau a Geraint a Cari, ein harweinyddion, am eich holl waith drwy gydol y flwyddyn, gan edrych ymlaen at gloi'r flwyddyn ar nodyn positif a dangos bod ein clwb bach ni yn mynd o nerth i nerth.

**Carwyn a Sallie**



Genod y tîm tynnu rhaff



Rhai o'r criw yn ail-greu rhaglen C'mon Midffîld!









## Darlith Goffa

Diolch i Dr Gwen Angharad Gruffudd am draddodi Darlith Goffa Dafydd Orwig eleni. Noson wych gyda chynulleidfa dda yn gwrando ar hanesion a helbulon Ogwenydd yn ystod cyfnod difyr iawn yn hanes Bethesda.

Dilynwch Llais Ogwan
ar Trydar **@Llais_Ogwan**

# Bethesda


**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)


**Penblwydd Priodas**
Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Gareth Williams, Rhes Ogwen ar achlysur hapus dathlu 65 o flynyddoedd o fywyd priodasol ar 12 Mai. Bu dathlu yn y Clwb Rygbi pryd y cafwyd te prynhawn ardderchog.

**Ysbyty**
Bu sawl un o'r cylch yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cynnes am wellhad buan atoch chi sydd wedi eu henwi isod, a phawb arall hefyd.

Tom Jones, Brynbella; John Wyn Jones, Ffordd Bangor: Rhian Roberts, Rhes Buddug; Ann Williams, Sgwâr Buddug; Maureen Jones, Maes Coetmor; Douglas Sherlock, Maes Coetmor; Brian Tillman, Stryd Fawr, Dyfrig Owen, Stryd Fawr, Alan Parry Glanogwen ac Elfed Bullock, Maes y Garnedd.

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Magi John, wyres Joe a Menai, Ffordd Bangor, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd.

**Penblwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Elwyn Jones, Pantglas, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar 1 Mehefin.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:-

Arwel a Linda, Garneddwen ac Anwen a Gareth, Bryn Caseg, wedi iddynt golli eu modryb, Mrs. Megan Parry, Mynydd Llandygai, ar 17 Mai.

Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas, ar golli ei chwaer yng nghyfraith yn Crewe ar 14 Mai, sef Mrs. Hannah Roberts, a oedd yn 101 mlwydd oed.

Emyr V. Jones a'r teulu, Llawr y Nant, wedi colli ei frawd, Trefor, ym Mangor ar 3 Mai.

Emyr a Heulwen Roberts, Ffordd Bangor, wedi colli ewythr, sef Mr. John Evans, Llys y Gwynt.

**Cymorth Cristnogol**
*Bore Coffi*
Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yng Nghanolfan Cefnfaes ar Sadwrn, 13 Mai. Gwnaed elw o £376. Diolch i bawb am eu rhoddion a'u cymorth !

Oedfa
I roi cychwyn teilwng i wythnos gasglu Cymorth Cristnogol, cafwyd oedfa fendithiol iawn yng Nghapel Jerusalem ar Sul 14 Mai. Yn dilyn gair o groeso a diolch gan Walter Williams, arweiniwyd yr oedfa gan y gweinidog, sef y Parchedig Nerys Griffiths. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o eglwysi'r cylch, sef Olwen a Ceri (Jerusalem), Neville (Bethlehem), Parchg. Sara a Barbara (Glanogwen) a Joe (Carmel). Mrs. Menai Williams oedd yn cyfeilio. Gwnaed casgliad o £70 tuag at yr wythnos gasglu.

## Yr Eglwys Unedig

**Cymorth Cristnogol**
Cynhaliwyd gwasanaeth cymunedol arbennig i nodi dechrau'r Wythnos Cymorth Cristnogol flynyddol yn y Capel nos Sul, Mai 14, o dan arweiniad ein Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths. Diolchwn i bawb a gymerodd ran yn yr oedfa, ac edrychwn ymlaen mewn gobaith i glywed y bydd derbyniadau ariannol y Dyffryn ar gyfer yr elusen bwysig hon unwaith eto'n sylweddol.

**Yr Adeiladau**
Fel y gwyddoch, mae angen llawer o waith parhaol i gynnal a chadw'r adeiladau, a hyfryd yw gweld y Festri fach wedi cael côt o baent newydd bellach. Hefyd, mae'r gwaith o glirio a thacluso'r ystafelloedd dosbarth yn mynd rhagddo, a diolch yn fawr i'r rhai sydd yn gyfrifol am hyn.

**Cofion**
Mae ein dymuniadau a'n cofion gorau yn mynd at bawb sydd yn dioddef o anhwylder neu lesgedd y dyddiau hyn. Da oedd deall bod Elfed Bullock wedi derbyn triniaeth lawfeddygol o'r diwedd – gobeithio y daw gwellhad llwyr a buan i ti, Elfed.

**Arholiadau**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r bobl ifainc hynny sydd yn sefyll arholiadau TGAU a Lefel A yn ystod yr wythnosau hyn, gan obeithio y bydd eu gwaith caled yn dwyn ffrwyth, ac y cânt fynd ymlaen i ddilyn y gyrfaoedd y maent yn eu deisyfu. Pob llwyddiant i bawb ohonoch!

**Oedfaon**
Cafwyd oedfaon bendithiol iawn yn ystod yr wythnosau a aeth heibio, a diolchwn yn fawr i'r Canon Idris Thomas, Y Parchedig Cledwyn Williams, Ceri Dart, Carol Dewi Jones, Y Parchedig Mererid Mair, ac wrth gwrs ein Gweinidog, am eu gwasanaeth clodwiw. Fore Sul, Mai 21, cawsom y fraint o ymuno gydag aelodau'r Ofalaeth yng Nghapel y Cysegr, Bethel, mewn oedfa o sacrament y Cymun, o dan ofal ein Gweinidog. Hynod o braf ar fore hyfryd oedd cael teithio i Fethel, a chael cyfle unwaith yn rhagor i ddod i adnabod ein cyd-aelodau yn well eto. Bydd yr oedfa undebol nesaf yng Nghaeathro ym mis Medi.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Mehefin 18: Y Parchedig Robert Capon (5)
Mehefin 25: Y Gweinidog
Gorffennaf 2: Y Parchedig RO Jones (10)
Gorffennaf 9: Y Parchedig Pryderi Ll. Jones (10)
Gorffennaf 16: Y Gweinidog
Gorffennaf 23: I'w drefnu
Gorffennaf 30: Y Parchedig Iwan Ll. Jones (10); Y Parchedig Hugh Pritchard (5)

**Ni fydd gwasanaethau yn ystod mis Awst.**

**Pêl-droed**

Llongyfarchiadau i dimau pêl-droed genethod Ogwen Tigers dan 7, 9 ac 11 a fu'n cystadlu yng ngemau terfynol cynghrair gogledd Cymru ar gae'r Ofal yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Mae'r timau wedi bod yn llwyddiannus iawn y tymor yma yn chwarae dros y gogledd, ac yn llwyr haeddu eu medalau diwedd tymor. Ymlaen nesa' i dwrnament Airbus a NFA - Pob lwc genod a da iawn chi i gyd!



Tîm dan 7 oed



Tîm dan 11 oed Ogwen Tigers



Tîm dan 9 oed

**Gorffwysfan**

Ar ddydd Mercher, 26 Ebrill, aeth aelodau a chyfeillion Clwb Gorffwysfan ar wibdaith i Cheshire Oaks. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau.

Cofiwch am y wibdaith nesaf ar ddydd Mercher, 28 Mehefin. Cychwyn o'r Stryd Fawr am 8.00yb. Enwau i Joe.

Cofiwch hefyd am ein Cyfarfod Blynyddol yng Ngorffwysfan, fore Llun, 26 Mehefin am 11.00yb.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Atgyweirio**

Braf yw gweld y gwaith atgyweirio yn mynd yn ei flaen o'r diwedd. Wedi gwaith plastron, bydd y sgaffaldiau tu fewn yn dod lawr a'r eglwys yn lan unwaith eto.

Mae un rhan o'r to bron wedi ei gwblhau, a bydd yr ail ran yn dechrau yn fuan

Bydd rhaid ail-ddechrau codi arian i'r Apêl er mwyn trefnu mwy o'r atgyweirio. Braf fyddai clywed gan unrhyw un am gynlluniau i godi arian.

Oes rhywun yn barod i ysgrifennu at gwmnïau mawr yr ardal i ofyn am gyfraniad?

I gyn-aelodau sydd ddim yn lleol, mae'r safle GoFundMe yn dal ar agor – safle we GoFundMe, Glanogwen yn y bwlch 'search', a dilyn y cyfarwyddiadau. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu'n ddiweddar.

Neu anfon siec yn daladwy i 'Cronfa Apêl Glanogwen' a chysylltu â'r warden am fanylion pellach.

**Enillwyr Clwb Cant mis Mai**

£40: - Rhif 81 – Ceri Medway
£20: – 90 – Susan Roberts
£15: - 188 - Brenda Baston

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Bore Coffi at gynnal yr eglwys yng Nghanolfan y Cefnfaes fore Sadwrn, Mehefin 17, braf yw gweld y boreau'n boblogaidd unwaith eto ar ôl cyfnod llwm y pandemig a'r gaeaf hir.

**Amlenni Rhodd**

Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

**Cofion**

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref. Hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl.

**Gwasanaethau**

Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**

Gellir cysylltu â'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.
Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ar gael ar 07967652981.

Ac mae Barbara (600530) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

Rydym yn ddiolchgar dros ben i Mrs Glenys Morgan am ei blynyddoedd o waith diflino er lles yr eglwys. Heb ei chyfraniad cyson mewn sawl cyfeiriad, byddai'r eglwys yn dlotach o lawer mewn bywyd ysbrydol. Mae Glenys wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r swydd, ac felly mae angen rhywun i lenwi ei hesgidiau - a fyddech chi'n fodlon? Cysylltwch â'r ficer, Dr Gareth Lloyd, neu'r Caplan, y Parch Sara Roberts, am fwy o fanylion - a dewch i'r Cyfarfod Cyffredinol ar Mehefin 19.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Carwyn ac Elin ar enedigaeth Owi Lloyd ar Fai 12fed. Mae Owi yn frawd bach newydd i Jac Lloyd ac ŵyr bach i Gwenllian a John Roberts, Erw Las, a Lilian a Cemlyn Williams, Erw Las, heb anghofio llongyfarch hen daid, Selwyn Jones, Llanfairpwll.

**Diolch**

Dymuna teulu'r ddiweddar Glenys Rowlands, Adwy'r Nant, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad atynt yn eu profedigaeth.

Diolch hefyd i 'r Parchedig Sara Roberts a Christine Edwards am eu gwasanaeth yn yr eglwys, ac i Gareth Williams am ei drefnu trylwyr.

Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd.



# CHWILAIR



## LLYNNOEDD SIR GAERNARFON

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Q | W | G | Q | B | **M** | **A** | **R** | **C** | **H** | **L** | **Y** | **N** | M | V | W | F | Z | R | S |
| G | G | X | G | F | M | J | V | P | A | K | F | M | N | G | O | P | I | O | T |
| S | E | W | I | P | F | Y | L | S | O | O | N | T | X | O | P | V | L | A | Y |
| A | T | X | Y | D | E | Y | L | L | Y | N | Y | M | Y | N | Y | D | D | G | Q |
| Y | U | B | C | N | W | R | N | J | W | F | Y | P | Z | U | K | A | A | P | U |
| M | N | T | Y | H | A | A | I | N | E | D | Z | D | I | E | K | M | C | J | H |
| H | B | H | V | G | J | N | L | S | O | P | B | G | K | B | T | K | A | S | N |
| L | S | A | C | G | N | U | T | Q | G | N | V | M | L | B | R | R | L | G | P |
| J | C | W | P | V | A | R | R | W | J | V | L | U | X | D | C | G | N | T | U |
| L | K | E | X | M | D | Y | Q | P | C | L | A | L | D | S | D | F | C | J | Q |
| L | O | H | S | K | C | S | Z | F | U | L | S | Y | U | Z | L | A | T | C | P |
| P | X | P | U | I | Q | W | H | G | B | J | N | A | I | G | X | E | B | W | J |
| E | G | M | X | K | D | D | Q | H | K | N | O | W | V | E | W | T | T | R | E |
| J | H | Y | K | F | G | A | W | V | O | A | E | N | H | Q | O | Y | O | M | U |
| E | S | G | E | W | X | C | G | I | X | R | D | K | L | L | U | X | K | X | O |
| A | W | P | K | Y | X | P | R | Q | K | D | C | Z | N | Z | H | K | R | N | M |
| B | C | T | I | D | W | I | F | O | E | P | Q | Y | Z | G | A | G | F | E | Z |
| Y | V | S | D | N | E | C | R | A | F | N | A | N | T | H | P | N | I | W | I |
| U | L | C | R | G | G | L | A | S | L | Y | N | X | D | Y | L | Y | N | G | B |
| E | K | X | M | K | U | C | R | W | H | D | X | V | C | G | Y | K | W | O | U |

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg LLYN YN SIR GAERNARFON i chwi eu darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn <u>**un**</u> llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 29 Mehefin. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Mae'n ymddangos eich bod chi'n fwy cyfarwydd â thaleithiau yr America na physgod y môr ag afonydd, er mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i yn yr un cwch a chi i ddweud y gwir. Llawer iawn ohonoch wedi darganfod KANSAS yn lle ARKANSAS, felly gwell hwyl gyda Llynnoedd Sir Gaernarfon y tro yma!

**Dyma atebion chwilair Mai.** Alabama; Arkansas; Colorado; Delawere; Florida; Indiana; Kentucky; Mississippi; Nebraska; Oklahoma; Texas; Washington.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:-** Rhiannon Hughes, Llanfairfechan; Carys Parry, Glanogwen; Doris Shaw, Bethesda; Gwen Davies, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Nia Wyn Bagnall, Pentre Llandygai; Gwen Roberts, Rhosmeirch.

**Enillydd Mai oedd:-** Rhiannon Hughes, Trelew, 4 Parc Menai, Llanfairfechan, Conwy. LL33 0AY

# YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

**Gwasanaeth y Pentecost**
Braf oedd cael croesawu'r Parchedig Sara Roberts i'r ysgol unwaith eto i gynnal gwasanaeth ysgol gyfan! Trafodwyd y Pentecost sy'n cael ei ystyried fel pen-blwydd yr Eglwys, a sut mae dathlu pen-blwydd? Wel wrth rannu cacen wrth gwrs! Diolch unwaith eto, pawb wedi gwrando'n astud ac wedi mwynhau'n arw!



**Bro360**
Diolch o galon i Catrin o Bro360 am ddod acw i weithio gyda'r Cyngor Ysgol a'u dysgu sut i rannu newyddion a digwyddiadau'r ysgol ar dudalen Ogwen360! Cofiwch wylio allan am hynt a helynt ein disgyblion yma!

**Cystadleuaeth Stori Fer**
Gwych oedd gweld fod cymaint wedi cymryd rhan yng nghystadleuaeth stori fêr BBC Radio Cymru eleni, mae pawb yn falch iawn ohonoch, ymdrech wych! Edrychwn ymlaen at fwy o gystadlu yn y dyfodol agos!

**Prynhawniau Agored**
Agorwyd drysau'r dosbarthiadau y tymor yma i groesawu rhieni Ysgol Abercaseg i mewn am sgwrs ac i weld gwaith y disgyblion. Roedd yn braf cael cyfle i ddal i fyny gyda phawb, a gweld balchder yn wynebau'r plant wrth ddangos eu gwaith caled i'w rhieni.



**CREADURIAID Y MÔR**
Yn ystod y tymor hyd yma mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu am greaduriaid y môr. Cawsom ymwelwyr unigryw dros ben yn y dosbarth i gyd-fynd gyda'n thema. Cawsom weld a chyffwrdd gwahanol bysgod, crancod a chimwch byw. Roedd y plant wedi gwirioni wrth gael arsylwi a theimlo'r creaduriaid rhyfeddol- gyda rhai disgyblion yn ddigon dewr i afael arnynt. Da iawn chi blantos!

**Diolch Mrs Roberts**
Fe hoffem ddymuno'n dda a diolch o waelod calon i Mrs Angharad Roberts a fu'n treulio cyfnod gwerthfawr dros ben gyda dosbarth Ffrancon eleni. Bu'r plant yn mwynhau llu o brofiadau arbennig drwy gydol y flwyddyn. Roedd y plant yn edrych ymlaen yn fawr iawn i'w gweld ar ddydd Iau a dydd Gwener i gael gwersi llawn creadigrwydd, prysurdeb a hwyl. Diolch Mrs Roberts!

**Blue Planet**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 2 daith gwerth chweil i 'Blue Planet' yn ddiweddar. Cawson nhw gyfle i wylio'r creaduriaid yn cael eu bwydo yn yr 'aquarium', yn ogystal â cherdded trwy'r twneli rhyfeddol gyda phob math o bysgod a siarcod yn nofio drostynt. Cawson nhw hefyd arsylwi'r bywyd morol yn y pyllau amrywiol yn cynnwys 'aligators', manta, cwrel a physgod clown fel 'Nemo'. Roedd gwen fendigedig ar wynebau pawb!

**Ymweliad i Ysgol Pen-y-bryn**
Bu Blwyddyn 2 ar ymweliad i Ysgol Pen y Bryn yn ddiweddar fel rhan o'u cyfnod paratoi a phontio'n barod i drosglwyddo i'r ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau a llawn straeon am eu profiadau ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Cawson sawl stori am yr hwyl a gawson yn chwarae pêl droed ar y buarth!



**MERCHED PESDA YN Y DRENEWYDD**
Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed genethod Ysgol Penybryn am gynrychioli ysgolion Cyngor Gwynedd yng Ngŵyl Genedlaethol 5 bob ochr Cymru yn Y Drenewydd.

Braint oedd gweld y tîm yn magu hyder a gwella ym mhob gêm. Pawb wedi mwynhau'n arw a rhoi eu gorau glas. Da iawn chi genod Pesda!



**Sw Mor**
Bu disgyblion Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 ar daith dros y bont i Sw Mor Ynys Môn ar ddechrau'r thema i arsylwi'r bywyd morol gwych yn ein moroedd. Cawson nhw weld pysgod jeli, morfeirch, a sêr mor hyfryd. Roedd y plant wedi rhyfeddu gyda'r holl bysgod ac wedi mwynhau sgwrs ddifyr gan y Sw Môr ar siarcod. Cafodd pawb ddiwrnod gwerth chweil!

**Seremoni'r Coroni**
Braf oedd gweld rhai o enethod Ysgol Pen-y-bryn yn perfformio yn Seremoni Coroni Carnifal Bethesda eto eleni ac Efa Rhodd, a oedd wedi'i dewis i fod yn frenhines y carnifal eleni!

**Carnifal**
Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion Ysgol Pen-y-bryn ac Abercaseg a fu'n cymryd rhan yn y Carnifal. Da iawn chi am gymryd rhan yn y majorettes, perfformiad Dreigiau'r Dyffryn, cymryd rhan yn y fflotiau, ymdrechu i wisgo i fyny mewn gwisg ffansi neu droi fyny i fwynhau a chefnogi. Braf oedd gweld disgyblion Abercaseg yn cymryd rhan werthfawr yn y gymuned.

**Rhoddion Caredig**
Hoffem ddiolch yn fawr i Mrs Kelly Shaw, sydd yn rhiant i un o ddisgyblion Ysgol Abercaseg, am ei rhoddion caredig iawn tuag at ein Clwb Magwraeth. Mae Mrs Shaw yn gweithio yn archfarchnad 'Morrisons' ym Mangor, ac wedi trefnu bod rhodd o fyrbrydau amrywiol wedi cael eu rhoddi i'r clwb ac mae pawb yn falch iawn ohonynt. Diolch!

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Yr Haf o'r diwedd**

Dyna braf ydi cael croesawu'r haul yn ôl unwaith eto 'lenni. Mwynhewch bob eiliad a chadwch yn saff drigolion y Dyffryn. Wythnos yma rydan ni hefyd yn croesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i dref hyfryd Llanymddyfri ac yn dymuno'r gora' i bob cystadleuydd. Mi fydd rhai o Ddyffryn Ogwen ar lwyfan y brifwyl a dymunwn bob llwyddiant iddyn nhw. Yn fwy na dim mwynhewch y profiad. Dim byd tebyg i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd !

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**

Roedd yn bleser i Lywydd y gangen, Carol Jones i gael croesawu Beca Roberts i Festri Capel Shiloh Newydd, Nos Lun, Mai 8. Rydym yn ei nabod fel un o genod y pentref gan iddi gael ei magu yn Caer Wern yn ferch i Enid a Dafydd Roberts ac yn chwaer i Catrin. Mynychodd Ysgol y pentref ac Ysgol Dyffryn Ogwen cyn mynd ymlaen i'r Brifysgol lle bu yn astudio gwyddoniaeth ac yn arbennig yr Amgylchedd. Beca yw ein Cynghorydd Lleol ar Gyngor Sir Gwynedd ac mae parch mawr iddi ar ddiwedd ei blwyddyn gynta' fel Cynghorydd Sir. Cawsom glywed am y gwaith o ddydd i ddydd sy'n dod i ran Cynghorydd. Cafodd ei thaid, sef y diweddar Griff Charles Morris, Rhos y Nant, Bethesda wybod am ei llwyddiant ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, ac roedd Beca yn falch iawn o hynny. Mae'r gwaith yn amrywiol dros ben a hynny yn ddiddorol ac yn medru bod yn heriol iawn hefyd. Ychydig ddyddiau cyn dod atom i'r gangen cafodd ei hethol yn Is Gadeirydd Cyngor Gwynedd. Cryn anrhydedd i ferch ifanc sydd heb gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeg ar hugain eto! Daeth mwy o anrhydedd i'w rhan ym mis Mai eleni pan enillodd wobr arbennig er cof am Steffan Lewis, cyn-aelod Plaid Cymru o'r Senedd yng Nghaerdydd a fu farw yn frawychus o ifanc. Anrhydedd arbennig o wych i Beca. Diolchwyd iddi am noson ardderchog gan ddymuno'r gorau iddi yn ei gwaith yn cynrychioli trigolion yr ardal ar Gyngor Sir Gwynedd.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesa Nos Lun, Mehefin 5, pan ddaw Elin Tomos o Nant Peris yn wreiddiol i siarad am Ferched y Chwarel.

Daw tymor y gangen am eleni i ben Nos Lun, Gorffennaf 3 gyda The Mefus yn Derwen Gam, 31 Tal y Cae, am 6.45. Dowch yn llu i fwynhau!

## Capel Shiloh Newydd

Mae oedfa yma bob nos Sul am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Mehefin 18 - R.O.Jones, Gaerwen
Mehefin 25 - Trefniant Lleol
Gorffennaf 2 - Philip Barnett, Swydd Efrog
Gorffennaf 9 - Trefniant Lleol
Gorffennaf 16 - Euros Hughes Dinas Mawddwy
Gorffennaf 23 - Nerys Griffiths, Caernarfon
Gorffennaf 25 - I'w drefnu
Ni fydd oedfaon yn ystod mis Awst ond bydd yr Oedfa nesa' ar Fedi 3 pan roddwn groeso i Eric Jones, Bangor i'n plith.

**Drws Agored**

Does dim rhaid eich atgoffa fod drysau Shiloh Newydd ar agor bob bore Gwener, rhwng 10 a 12 o'r gloch. Ymunwch hefo ni bawb sy'n hoffi paned a sgwrs a chroeso mawr i unrhyw un a hoffai sgwrs Gymraeg a dod i nabod cyfeillion newydd yn y pentref.

# Penblwydd arbennig

Mae gwasanaeth sy'n cefnogi teuluoedd mwyaf bregus Gwynedd yn dathlu degawd o waith gwych a diflino.

Gall rhai teuluoedd wynebu trafferthion ar adegau a phrif amcan Tîm o Amgylch y Teulu Cyngor Gwynedd ydi dod â'r holl wasanaethau sy'n gallu cefnogi pobl drwy gyfnodau anodd ynghyd a chreu cynllun i'w cael drwy'r cyfnod dyrys.

Mae Tîm o Amgylch y Teulu Gwynedd yn galluogi mynediad at amrediad o wasanaethau cefnogol, er enghraifft sgiliau rhiantu; cefnogaeth iechyd meddwl; cymorth gyda materion tai; a llawer mwy.

Cynhaliwyd digwyddiad arbennig i ddathlu'r garreg filltir gyda chynrychiolaeth o amrywiol dimau yn cynnwys Derwen, Tîm Datblygiad Cynnar a Chwarae, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn, Tîm o Amgylch y Teulu, Cefnogi Teulu Arfon a Dwyfor, Tîm Y Bont a Barnado's.

"Pan mae gan deuluoedd nifer o bethau yn eu poeni – fel sefyllfa fregus yn y cartref neu anawsterau dysgu– mae bywyd yn gallu bod yn anodd ac yn anffodus yn amlach na dim y plant sy'n dioddef fwyaf," meddai'r Cynghorydd Elin Walker Jones, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer Plant a Chefnogi Teuluoedd

"Mae ceisio gwybod pa asiantaethau neu wasanaethau sydd ar gael i helpu yn gallu llethu unrhyw un ar y gorau, felly mae Tîm o Amgylch y Teulu yn gwneud gwaith gwych drwy greu cynlluniau, tynnu asiantaethau at ei gilydd a chefnogi teuluoedd i ddatrys eu problemau.

"Mae llawer o waith anweledig yn digwydd yn y maes hwn ac er yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth yma maent yn gwneud gwaith penigamp ac rwyf yn falch iawn o'r holl staff ac fe hoffwn ddiolch iddynt i gyd am eu hymroddiad i deuluoedd bregus Gwynedd."

I fod yn gymwys ar gyfer cymorth gan Dîm o Amgylch y Teulu, rhaid i deulu fod a nifer o bethau yn eu poeni ac eisiau cymorth i'w ddatrys wrth greu cynllun a thynnu asiantaethau at ei gilydd i'w cefnogi.

Mae gwybodaeth sydd ar gael i deuluoedd bregus, a sut mae gwneud cais am gymorth, ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd, drwy ffonio 01758 704 455 neu daro e-bost: cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru






Dathlu degawd y Tîm

# YSGOL TREGARTH





### GŴYL CRICED YR URDD

Cynhaliwyd cystadleuaeth criced ar gyfer blwyddyn 3 a 4 draw yng nghlwb criced Pwllheli ar ddiwedd y tymor. Bu tîm o 11 yn rhan o garfan ysgol Tregarth ac yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth criced am y tro cyntaf. Curo tair gêm a cholli un yn erbyn y pencampwyr, Llanrug oedd hanes y tîm gan lwyddo i orffen yn ail yn y gystadleuaeth. Pob lwc i'r tîm yn y rownd nesaf draw yn Eirias.

**PC Andy**

Cafodd dosbarth Ogwen y fraint o gyfarfod a chael sesiwn gyda PC Andy yn ystod y tymor yma. Daeth PC Andy i gynnal sesiwn ynglŷn â seibr-fwlio a sut i ymddwyn yn saff ac yn briodol ar y we. Bu PC Andy hefyd yn nosbarth Ffrydlas yn siarad a thrafod cyffuriau a'r effaith maent yn eu cael ar ein cyrff. Diolch PC Andy!



**Partneriaeth Ogwen**

Diolch i Menna ac Anna am gynnal sesiwn i drafod materion amgylcheddol gyda dosbarth Tryfan â'r Cyngor Eco yn ystod y tymor. Rydym wedi mwynhau cydweithio'n agos hefo chi o Bartneriaeth Ogwen. Dengys y plant chyfrifoldeb, eu sgiliau creadigol a gofynnwyd cwestiynau difyr iawn wrth ddyfeisio ceir ar gyfer y dyfodol. Hyderwn fod ein dyfodol mewn dwylo da!

**Dymuno'n dda**

Rydym fel ysgol yn dymuno'n dda i Mrs Caryl Evans sydd wedi cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth. Mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar i glywed y newyddion da yn fuan iawn. Pob hwyl i Mrs Evans!

**Byw'n Iach**

Fel rhan o sesiynau byw'n iach i ddosbarth Ogwen yn ystod y tymor diwethaf, daeth Tomos o Swig Smwddis i'r ysgol. Bu Tomos yn siarad a chyflwyno ei fusnes o greu smwddis sy'n cyd-fynd yn wych gyda phrosiect o werthu ysgytlaeth sy'n mynd 'mlaen yn yr ysgol ar y funud. Cafodd y plant gyfle i flasu smwddis gwahanol a chreu rhai eu hunain. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael blasu'r smwddis yn ystod y tywydd poeth.

**Twrnament Pêl-droed Caernarfon**

Yn ddiweddar, bu Kayla o ddosbarth Ffrydlas yn cystadlu mewn twrnament yng Nghaernarfon fel rhan o dîm merched Bangor 1876. Da iawn ti Kayla a pob lwc i ti yn y gystadleuaeth nesaf.

### CYSTADLEUAETH GYMNASTEG

Llongyfarchiadau enfawr i Judah o ddosbarth Ffrydlas a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth 'Mens Artistic Gymnastic Apparatus Challenge' yng Nghaerdydd yn ystod mis Mai. Enillodd Judah saith medal am ei ymdrechion! Anhygoel Judah! Dal ati gyda'r gwaith caled.






## Calendr Llais Ogwan 2024

Lluniau ar gyfer Calendr 2024 i mewn cyn **30 Mehefin 2023**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.



**Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda**

*Cofiwch :*

- *nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i'r llun, a cynnwys eich cyfeiriad a'ch enw*

Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2024@outlook.com

**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**


MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

# Nyth y Gân



Buarthau'r Gyrn gan Nigel Beidas

### CORLAN

(buarthau hel defaid)

Mae hon ar lechwedd mynydd, a gofal
A gafodd gan ffermydd;
Trefn helfa yw ei defnydd,
Yn ei sail cadernid sydd.

### CÂN Y NENTYDD

Yn galw ar ei gilydd â'u seiniau,
Mor swynol yw'r nentydd
Yno'n rhoi caneuon rhydd
Ym mannau llwm y mynydd.

### CANEUON YR ADAR

Caneuon bendigedig
A ddaeth o frigau'r coed;
Ni wyddai neb eu cynnwys
Na hefyd faint eu hoed.

Eu nodau oedd mor berffaith
A glân i'n clustiau ni,
Yn swnio mor naturiol
Â'r afon yn ei lli.

Mor rhwydd a braf pob nodyn
Gan gydio yr un pryd
Â'i gilydd i greu cyngerdd
O seiniau tlws ein byd.

Dim ond am 'chydig amser
Fu'r canu yn y coed;
Y cywion bach a hedodd
Pan ddaethant hwy i oed.

### TÂN GLO

O'n magu efo megin, hir gysur
A gawsom fel gwerin;
Nawr tân glo'n ein bro sy'n brin
I nifer o'n cynefin.

### WAGENNI CHWAREL

Ugeiniau o wagenni, yn addas
Llawn oeddynt o lechi
I'w dwyn hwy yn do i ni
O gynnar, ddwfn glogwyni.

**Dafydd Morris**

# Cadwyn Ogwen yn ehangu



Criw Cadwyn Ogwen gyda chynrychiolwyr o Hwb Bwyd Dyffryn Nantlle

Mae Cadwyn Ogwen yn cydweithio efo cynhyrchwyr lleol ers 2020 i gynnig gwasanaeth archebu a danfon bwyd, diod a chynnyrch lleol i gwsmeriaid yn Nyffryn Ogwen neu i fan casglu.

Rydan ni'n falch o gyhoeddi bod y dewis o gynnyrch lleol o ansawdd bellach wedi ehangu. Ers dechrau Mai, mae Cadwyn Ogwen yn cydweithio gyda Hwb Bwyd Dyffryn Nantlle - gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan Yr Orsaf, Penygroes. Drwy'r bartneriaeth newydd yma, rydym nid yn unig yn rhoi mynediad i'n cynhyrchwyr i gwsmeriaid newydd yn Nyffryn Nantlle, ond rydym hefyd yn gallu cynnig llawer o gynnyrch newydd i chi, ein cwsmeriaid Cadwyn Ogwen yn Nyffryn Ogwen.

Mae'r cynhyrchwyr newydd yn cynnwys: **Poblado** – coffi; **Maggie's** - saws a pherlysiau; **Mêl y Maes** - mêl lleol; **Blodau o'r Mynydd** - blodau sych; **Tafolog** - jam a chatwad; **Siop y Glorian** - bwydydd sych, llysiau/ffrwythau a deunydd molchi a glanhau fesul eu pwysau; **Caffi'r Orsaf** - bara surdoes.

Mae'r drefn yn ddigon syml - bydd y cwsmer yn mynd i wefan Cadwyn Ogwen ar **www.cadwynogwen.cymru** i archebu cynnyrch lleol erbyn hanner dydd ar ddydd Mawrth er mwyn derbyn nwyddau ar brynhawn Iau. Bydd eich archeb yn cael ei danfon gyda fan drydan Cadwyn Ogwen i'ch cartref os ydach chi'n byw ym mhentrefi Rhiwlas, Pentir, Glasinfryn, Llandygai, Talybont, Llanllechid, Rachub, Gerlan, Tregarth, Mynydd Llandygai a Bethesda. Fel arall, gall cwsmeriaid gasglu eu harchebion o un o'r mannau casglu: Moelyci Tregarth, Llaethdy Gwyn Bethesda, neu Dyddyn Teg Bethel ar bnawn Iau.

Beth am fynd i weld beth sydd ar gael - ffordd gyfleus i gael cynnyrch o safon a chefnogi busnesau lleol.

# Cyngerdd Mawr Boreol

## gan Rob Evans

Erbyn hyn mae'r tymheredd wedi codi digon i mi gadw ffenest yr ystafell wely ar agor trwy'r nos. Fel fore godwr dw i'n deffro am bump bob bore, ia, dw i'n gwybod, dach chi ddim yn gyfarwydd â phump o'r gloch, nac ydach. Ond mae pump o'r gloch yn digwydd pob bore ac ym misoedd Ebrill a Mai mae'r awyr yn llawn o gerddoriaeth hollol naturiol – côr y wig!

Ond pwy sydd yn canu? Mae cân y fwyalchen yn hawdd adnabod, ond y lleill? Dros y blynyddoedd dw i wedi trio fy ngorau i adnabod y lleisiau, ac yn methu'n llwyr. Ond yn ddiweddar wnaeth fy ffôn ffyddlon farw yn sydyn ac roeddwn yn gwybod yn syth y byddai'n gorfod cael un newydd, un cymhleth ac un sydd yn llawer rhy fawr. Ffônau clyfar

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

**Clefyd y llwch**
Byddai llawer iawn o chwarelwyr yn dioddef o haint silicosis. Llwch llechfaen oedd yn ei achosi a'r enw gan y gweithwyr arno oedd clefyd y llwch. Roedd yn niweidio yr ysgyfaint yn ddifrifol ac yn achosi marwolaethau. Doedd dim mygydau ar gael i'w gwisgo ers talwm ac ni ystyriwyd y fath beth gan fod y doctoriaid yn dweud nad oedd dim drwg i'w gael o lwch y garreg, a hynny er mwyn plesio perchnogion. Clywid gan ambell i chwarelwr wrth gerdded i fyny'r allt “Ew, mae'r frest ‘ma'n gwichian" neu “Mae'r fegin ‘ma'n dynn heddiw.” Gan gyfeirio at yr ysgyfaint.

**Bod yn hurt**
Pan fydd rhywun yn gwneud a dweud petha hurt, mae ‘na nifer dda o eiriau ac ymadroddion i ddisgrifio un felly – rhai ohonyn nhw yn ddigon angharedig: ‘hurtyn’, ‘penbwl', ‘pen dafad', ‘lob', ‘lobyn gwirion', ‘joli lob', ‘llob', ‘mwlsyn', ‘crinc', ‘ddim chwartar call', ‘hulpyn/hulpan', ‘dw-lali', ‘lolyn'. Pan glywn ni am rywun yn dweud neu gwneud rhywbeth annisgwyl neu allan o'r cyffredin, mi ddwedwn ni ‘Mae o rêl Wil-dau-hannar', ac ‘Mae o'n greadur a hannar.’

**Mynegi blinder a gwendid**
“Dw i'n teimlo fel brechdan” medda ni pan fyddwn yn teimlo yn flinedig ac yn wan. “Dw i ‘di blino'n lân" ddwedwn ni am fod wedi blino'n llwyr. Dywediadau eraill ydi “Dwi ‘di ymlâdd" a “Dwi'n teimlo yn wan fath a cath.”

**‘Dow-dow’ a ‘linc -di-lonc'**
“Mi awn ni dow-dow" medda ni pan fyddwn yn bwriadu mynd ‘yn ara bach' ac 'wrth ein pwysau' hynny ydi, gan gymryd ein hamser yn hamddenol, braf. “Mynd linc -di-lonc" ydi'r dywediad arall sydd yn cyfleu hynny.

**Torri gwallt**
“Mae hi'n hen bryd iti dorri'r mwng ‘na!” Dyna fydda eiriau mamau pan fyddai gwalltia' llawer o'r hogia wedi tyfu’n rhy hir. ‘Mwng', wrth gwrs, ydi gwallt ceffyl ac mae hwnnw yn arbennig o hir! Pan ddaeth y ‘crew cut' yn ffasiynol ymhlith yr hogia, efo'r gwallt wedi ei dorri’n fyr, yr enw arno yn lleol oedd 'croen y baw', sef cyfeiriad at dorri gwair i'r bôn. Toriadau eraill odd ‘cyt powlan' sef y gwallt yn llinell syth o gwmpas y pen, uwchben y llygaid; yna ‘rhesan ganol' - y gwallt wedi ei rannu'n y canol ar y corryn; a rhesan ochor, a ‘locsyn clust' meddan ni am ‘sideburns'

**Ambell air**
Mae geiriau amrywiol yn cael eu defnyddio i gyfeirio at ddynion ifanc, megis, llanc, llanciau, glaslanciau, weithiau dywedir bod rhywun yn meddwl ei hun yn ‘dipyn o lanc'. Un arall ydi “llafnau ifanc" neu ‘ryw lafna ifanc o gwmpas y lle 'ma'. Tybed o ble daeth y gair llafn yn yr ystyr yma.

Yn ôl at y gair taro unwaith eto. Dyma un dda yn cael ei chofio gan Gaynor Elis-Williams sef 'slaes'.

Dyma ymadrodd arall gan fy mam a glywais ar sawl achlysur ‘a dyn byw las ulw'. Yn amlach na pheidio ceisio fy ngwahardd rhag gwneud rhywbeth oedd hi, neu yn fy siarsio i beidio chyffwrdd rhywbeth. Ia y gair bach ‘ulw', fyddwch chi yn ei ddefnyddio a phaham?

Yda chi wedi cael eich cyhuddo o ‘rogio' wrth chwarae gêm? Mae'r rhan fwyaf ohonom pan yn blant mae'n debyg. Mae'n debyg mae o'r gair Saesneg rogue am ‘gnaf' neu ‘walch' y daw ond i ni ei ddefnyddio fel rhywun sydd yn gwneud cam yn bwrpasol.

Beth am ambell i air gennych chi. Anfonwch at Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN, 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk


Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L. Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909



SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â’r siop ar yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL


maen nhw’n eu galw nhw ac yn sicr maen nhw’n fwy clyfar na fi, hyd yn oed!

Roedd yr wythnosau cyntaf yn hunllef a’r peth yn chwarae tiwn trwy’r amser, ac am ddim rheswm. Roeddwn yn teimlo bod fy mywyd yn cael ei gymryd drosodd gan y ffôn. Mae o’n llawer rhy fawr i roi yn fy mhoced. A ninnau yn byw mewn amser pan mae popeth yn mynd yn llai.

Ac wedyn wnaeth ffrind ddweud wrtha i am ‘apps’. Am be dw i eisiau ‘ap’? pethau hollol


dryw

wirion ydyn nhw. Ond dysgais fod yna ‘app’ sydd yn gallu adnabod lleisiau adar! Yn well byth roedd o’n rhad ac am ddim. Mewn llai na munud roedd o ar y ffôn ac eisteddais i lawr yn yr ardd a throi


robin goch

o ymlaen. A dyma ni rhestr yn cael ei greu o’r holl adar oedd yn canu

Y Fronfraith fach a fawr, dryw, robin goch, titw o bob math, aderyn y to a’r berth, y dringwr bach, telor yr helyg, nico a melyn yr eithin. Mae yna drac sain ar gyfer bob aderyn ac mae hynny’n gwneud pethau’n haws. Mi fydd yn cymryd amser i adnabod pob un wrth gwrs ond mae dod i adnabod nhw yn rhoi pleser mawr i mi.

Dw i’n edrych ymlaen at bump bob bore ac wrth fy modd yn eistedd a chael cyngerdd. Cyngerdd byd natur. Er mwyn cael yr un pleser defnyddiwch eich ffôn clyfar i adnabod sŵn yr adar sydd o’ch cwmpas.

# Tymor a hanner i dîm Bethesda Athletic

Mae sicrhau dyrchafiad o unrhyw gynghrair yn beth ddigon anodd – fe fydd cefnogwyr tîm Wrecsam yn dyst i hynny.

Ond meddyliwch yr ymdrech i sicrhau dyrchafiad dwywaith o'r bron. Dyna gamp tîm Bethesda Athletic a fydd yn chwarae yn nhrydedd 'tier' pêl-droed Cymru tymor nesaf.

Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd ynghlwm gyda'r clwb ar dymor arall hynod lwyddiannus.

Daeth y cadarnhad ar ddiwedd y tymor fod tîm Bethesda wedi sicrhau'r drwydded angenrheidiol i allu cystadlu ar y lefel yma a phob lwc i hogiau Parc Meurig.



# Bowlio gyda Bys a Bawd

**Medrusrwydd yn dwyn ffrwyth**
Ar ddydd Mawrth 23 Mai, teithiodd tîm bowlio hŷn Bethesda i Landudno i chwarae yn erbyn Craig y Don 'B'. Wedi brwydr galed llwyddodd Bethesda, dan gapteiniaeth Mr Maldwyn Pritchard, i gipio'r ornest o drwch blewyn gan guro'r gemau o 4 i 3 a dod yn gyfartal yn yr agregu.
Yr enillwyr oedd Denzil Jones, Fred Buckley ac Alan Griffiths, gyda Derek Griffiths a Gloria Williams yn fuddugol yn y gêm i barau.

**Anlwc yn taro**
Yn anffodus boddi yn ymyl y lan wnaeth y capten gyda Mr John Baston ac awdur y golofn hon yn methu tanio ar y diwrnod. Yn wir, clywyd amryw yn dweud bod y capten a Mr Baston wedi bod yn lwcus ac yn anlwcus - lwcus i gael dau chwaraewr gwan yn eu herbyn ond yn anlwcus i golli iddynt. Ar y llaw arall roedd awdur hyn o eiriau yn anlwcus ar ddau gyfrif - cael chwaraewr gorau Craig y Don fel gwrthwynebydd a bod yn sobor o anlwcus i golli yn ei herbyn. Peth felly ydy 'draw' a does neb a ŵyr beth fydd yn digwydd pan dynnir yr enwau allan o het. Dim ond gobeithio bydd ffawd yn gwenu ar y tri chollwr yn y gemau nesa'.



**Siôn Guto a Brynmor sy'n cael tymor rhagorol yn y bowlio Dydd Sadwrn.**


**Fred Buckley, Tregarth, Chwaraewr mwyaf llwyddiannus Bethesda ac yntau'n tynnu at ei 90 oed**

**Bowls Cynghrair y Glannau**
Mae'n hyfryd cael cyhoeddi bod tîm bowlio Dydd Sadwrn, dan gapteiniaeth Siôn Guto Roberts, sy'n chwarae yn Adran 'B' y gynghrair uchod yn perfformio'n foddhaol iawn hefyd.
Ar ddechrau'r mis hwn roedd y tîm, sy'n cynnwys cymysgedd o rai profiadol a rhai ieuengach yn gorwedd yn 4ydd allan o 9 tîm yn y gynghrair. Mae Siôn ei hun yn cael tymor ardderchog ac yn 5ed yn y canlyniadau unigol wedi ennill 4 gêm allan o 4. Yn sefyll yn 9fed yn y canlyniadau unigol mae Brynmor Jones hefyd yn cael tymor da gyda 4 buddugoliaeth allan o 4 hyd at ddechrau'r mis.

**Cynghrair Bangor a Môn**
Capten y tîm hwn sy'n chwarae ar nos Fercher ydy Brynmor Jones ac ar ddechrau'r mis roedden nhw yn y 6ed safle yn y gynghrair.
Fred Buckley o Dregarth yw chwaraewr mwya' llwyddiannus y tîm gyda 4 buddugoliaeth allan o 5 wedi dod i'w ran. Mae Siôn Guto yn ail yn y canlyniadau unigol yn y gynghrair hon hefyd.


**Derek Griffiths a ddangosodd ei fedr yng Nghraig y Don wrth chwarae yn y gêm i barau efo Gloria Williams**


**Maldwyn Pritchard Capten y tîm hŷn**